YR YMOFYNYDD.

Rhif. 67.] GORPHENAF, 1864. [Ail Gyfres.

THEODORE PARKER.*

Llythyr IV.

"O Persecution, what a hideous fiend art thou in every shape, in every place, and in every age! But never, surely, more hideous, more disgusting, nor more contemptible, than when enlisted in the service of men calling themselves Christians."—*Thomas Belsham.*

Yn niwedd y flwyddyn 1840, deuwn o hyd i'r weddi hon: "Tydi, O Yspryd nas gall un enw ei fesur, nac un meddwl ei gynwys. Tydi yr hwn nid yw blynyddau ond megys dim iddo, yr hwn wyt o drag'wyddoldeb i drag'wyddoldeb—yr wyf yn diolch i ti am fod fy mywyd o hyd yn cael ei barhau o flwyddyn i flwyddyn. Yr wyf yn diolch i ti am fod fy nghwpan yn llawn o fendithion. Ond mi a'th fendithiwn hefyd pe llenwid fy nghwpan o ofid a phe troïd fy nydd yn nos. Ië, O Dduw, fy Nhad, mi a'th fendithiaf am ba beth bynag y gwnei ei ddanfon. Gwn ei fod oll yn dda iawn. Yr wyf yn diolch i ti am dy fod o hyd yn agos iawn attaf, am dy fod yn llefaru wrth fy nghalon o flwyddyn i flwyddyn. Yr wyt yn enyn fy ffydd, yn bywhau fy nghariad, yn bwrw i lawr fy ofnau. Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod, tydi a'm derbyni. O Dduw, bendithia fi eto y flwyddyn sy'n dyfod. Na fydd bell. Na chaffer fi un amser yn anffyddlawn i'th rodd di. Cadwer fy llygad yn agored, fy nghalon yn gywir a gwresog, fy ffydd yn bur a nefol. Boed hi fy mywyd beunyddiol, a lle bynag y caffo'r blynyddau fi, rhoer i mi gyflawnu fy nyledswydd yn ddiofn, ac felly byw ym mlaen—gan orwedd yn isel yn dy law, yn wynfydedig gan dy ddaioni di."

Ym mis Mai, 1841, bu galwad ar Mr. Parker i bregethu mewn lle o'r enw South Boston, yn urddiad dyn ieuanc meddylgar ac addawus, Mr. Shackford. Pwnc ei bregeth oedd y "Diflanol a'r Arosol yng Nghrist'nogaeth," a'i destun Luc xxi. 33: "Y nef a'r ddaear a ant heibio; ond fy ngeiriau i nid ant heibio ddim." Er nad oedd y bregeth mewn dim yn wahanol i'w bregethau arferol o ran mater, a'i bod o ran celfyddyd ei chyfansoddiad islaw iddynt, gan ei fod yn anhwylus y pryd y parotoai hi; eto oblegyd ei chyhoeddusrwydd ac ansawdd gymmysgedig ei wrandawyr, yn weinidogion a phobl, achosodd gyffro anarferol. Pregeth chwyldroadol oedd, yn ei dylanwad ar berthynas Mr. Parker am y dyfodol â'i gyd-grist'nogion, ac yn enwedig â'r corff Undodaidd. Nid oedd ganddo ef, mae'n wir, y bwriad lleiaf iddi i droi allan fel y gwnaeth; eto gwyddai'n barod fod gagendor fwy neu lai llydan yn ymestyn rhyngddo a'i frodyr. Dugodd y bregeth hon

* *Life and Correspondence of Theodore Parker, Minister of the 28th Congregational Society, Boston. By John Weiss, in 2 vols.*, 1863.

y gwahaniaeth rhyngddynt i amlygrwydd poenus ; a chan mai hi fu'r achlysur iddynt hwy droi eu cefnau arno, fe ganiateir oblegyd hyn, i mi wneuthur ychydig o sylwadau arni wrth fyned heibio. Nad beth a ddywedodd Mr. Parker ar ol hyn, nad i ba bellderau yr aeth oddiar lwybr sathredig y blaid Undodaidd yn America yn ol llaw, er barnu rhyngddynt hwy ag ef, rhaid cofio mai yn unig ar sail cynwysiad y bregeth hon y darfu iddynt yn y lle cyntaf ei ddiarddel. Y llwybr teccaf i mi i'w ddilyn fydd rhoi ychydig o ddyfyniadau, ac yr wyf yn cydwybodol farnu fod y rhai canlynol yn ol eu hyd yn rhoi cip-olwg cywir i'r darllenydd o ganol-swn y bregeth.

"Wrth edrych ar air yr Iesu, ar Grist'nogaeth sylweddol, y grefydd bur a ddysgodd ef, nid ymddengys dim yn fwy sefydlog a dilys. Lleda ei dylanwad fel y mae goleuni yn tannu ; dyfnha fel y daw'r cenhedloedd yn ddoethach. Ond wrth edrych ar hanes yr hyn a eilw dynion yn Grist'nogaeth, nid ymddengys dim yn fwy ansier a darfodedig. Tra y mae gwir grefydd bob amser yr un peth, ym mhob canrif, ym mhob gwlad, ym mhob dyn a'i teimla, nid yw Crist'nogaeth y pwlpid, sef y grefydd a ddysgir, na Christ'nogaeth y bobl, sef y grefydd a dderbynir ac a fucheddir, wedi bod erioed yr un peth mewn unrhyw ddwy ganrif na dwy wlad, oddieithr mewn enw. Mae Crist'nogaeth y seithfed ganrif wedi myned heibio. Yr ydym yn llawenhau ei bod wedi myned. Ond pa fodd y gwyddom ni na ddygwydd yr un peth i'n Crist'nogaeth ni yn awr? A oes cymaint o wahaniaeth rhwg y 19eg ganrif a rhyw ddwy ganrif ar bumtheg ydynt wedi myned heibio fel ag i warantu'r gred y bydd ein golwg ni am Grist'nogaeth i bara byth? Pa fodd y gwyddom ni nad oes elfen ddarfodedig yn yr hyn a alwn ni yn Grist'nogaeth? Dywed Iesu wrthym mai gair Duw yw *ei air ef* ac o ganlyniad nad a heibio byth. Ond pwy a ddywed wrthym nad a'n *gair ni* heibio? y saif *ein golwg ni* am ei air yn oes oesoedd?

Mae ffurfiau a defodau cysylltiedig â Christ'nogaeth wedi newid llawer. Dim llai felly yr athrawiaethau. Fel engreifftiau neillduol, cymerer y ddwy athrawiaeth am awdurdod yr Hen Destament a'r Newydd, ac am natur ac awdurdod Crist. Ym mherthynas i'r olaf, y mae un blaid hen wedi dweyd wrthym mai y Duw anfeidrol yw'r Iesu ; un arall ei fod yn Dduw ac yn ddyn, ac un arall mai dyn oedd, mab Joseph a Mair. Credai pob un fod ei hathrawiaeth hi ar y pen hwn yn anffaeledig wir, ac yn ffurfio sylwedd Crist'nogaeth, ac un o amodau anhebgorol iechawdwriaeth.

Mae pob sect yn gwneyd Crist'nogaeth i orphwys ar awdurdod personol yr Iesu ac nid ar wirionedd anghyfnewidiol yr athrawiaethau eu hunain, neu awdurdod y Duw a'i danfonodd i'r byd. Mae awdurdod yr Iesu, fel eiddo pob dysgawdwr arall, gallai un yn naturiol feddwl, yn rhwym o orphwys ar wirionedd ei eiriau, ac nid eu gwirionedd hwy ar ei awdurdod ef.

Y golygiadau a ffurfia dynion am yr athrawiaethau hyn, cwestiynau duwinyddol ac nid crefyddol ydynt. Peth damweiniol yw eu cyssylltiad â Christ'nogaeth. Oblegyd pe dysgasai'r Iesu yn Athen ac nid yn Jerusalem, pe na wnaethai un wyrth, pe na chawsai yr un natur oddigerth y natur ddynol ei phriodoli iddo, pe y trengasai yr Hen Destament am byth ar adeg ei enedigaeth, buasai Crist'nogaeth o hyd yn Air Duw ; ni chollasai yr un o'i gwirioneddau. Buasai yn llawn mor wir, llawn mor hardd, llawn mor barhaus ag yw yn awr—er y collasem lawer gair bendigedig, ac y buasai i waith Crist'nogaeth ei hun, feallai gael ei gadw yn ol am amser hir.

Crist'nogaeth Crist, peth syml yw, peth syml iawn. Moesoldeb diam-

odol,* pur yw ; crefydd ddiamodol, bur ; cariad at ddyn a chariad at Dduw, yn gweithredu heb rwystr nac attalfa. Yr unig gred a esyd i lawr yw y gwirionedd mawr a dardd i fynu o hono ei hun yn y galon—y mae Duw. Ei harwyddair yw : byddwch yn berffaith fel y mae eich Tad Goruchaf yn berffaith. Yr unig ffurf a ofyna yw bywyd dwyfol ; gwneyd y peth goreu, yn y ffordd oreu, oddiar y cymhelliadau uwchaf, ufudd-dod perffaith i gyfraith fawr Duw. Ei chadarnhad *(sanction)* yw llais Duw yn y galon ; ei bresenoldeb gwastadol ef yr hwn a'n gwnaeth ni, a'r ser uwch ein penau ; Crist a'r Tad yn aros ynom.

Mae hyn oll yn syml iawn ; gall blentyn bychan ei ddeall ; mae yn hardd iawn, nis gall y meddyliau uwchaf gael allan ddim mor hawddgar. Ymholer i'r dyledswyddau neillduol a gymhellir arnom ; gostyngeiddrwydd, parch, sobrwydd, hynawsedd, cymwynasgarwch, maddeugarwch, gwroldeb, ymddarostyngiad i'r ewyllys berffaith, ffydd, a chariad gweithredol. Cymerwch holl gyflawnder ystyr Crist'nogaeth fel y mae wedi ei symio i fynu yn y gorchymyn : ' Car Dduw a dyn.' A oes yn hyn rywbeth i ddarfod ?

Nid oedd dim rhwng Iesu â Thad pawb oll ; dim umhen air, nac eiddo Moses nac Esaiah, nac eiddo Rabbi byw na Sanhedrim o Rabbis ; dim un pechod, neu gyndynrwydd yr ewyllys feidrol. Fel canlyniad i'r purdeb morwynol a'r ufudd-dod perffaith hwn, tywynai goleuni Duw i lawr i waelodion eithaf ei enaid, gan ddwyn yr oll o Dduwdod ag y dichon i gnawd ei dderbyn. Mynai i ni wneyd yr un peth ; addoli heb ddim rhyngom a Duw ; gweithredu, meddwl, teimlo, byw, mewn perffaith ufudd-dod iddo ef ; ac nid ydym ni byth yn *Grist'nogion* fel ag yr oedd ef *y Crist* hyd nes yr addolom, fel y gwnai yr Iesu, heb ddim rhyngom a Thad pawb oll.

Ni all y grefydd bur ddychymygol *(ideal)* a welodd yr Iesu ar fynydd ei weledigaeth, ac a fucheddodd ym mynydd isel gwladwr Galileaidd, yr hon a drawsffurfiodd ei groes i fod yn arwydd-lun o'r cyfan sy santeiddiaf ar y ddaear ; yr hon a wna yn gyssegredig y tir a sangodd ; yr hon sy fwyaf anwyl i'r goreu o ddynion, yn fwyaf gwir i'r hyn sy fwyaf gwir iddynt hwy —ni all y grefydd hon fyned heibio. Gader i ddynion wella mor bell ag y mŷner mewn gwareiddiad, neu esgyn mor bell ag y mŷner ar adenydd

* Defnyddiaf " diamodol" i gyfleithu'r gair " *absolute*" yn y gwreiddiol. Cyfarfyddir yn fynych iawn â'r gair hwn yn ysgrifeniadau Mr. Parker, megys " *Absolute Religion*," ac "*Absolute Morality.*,' Ystyr " *absolute*" a "diamodol" yn ogystal yw, dirwymyn, diderfynau, didelerau, digyfnewid. "*Absolute Religion*" neu Grefydd Ddiamodol yw crefydd nad yw rwymedig wrth, na therfynedig gan unrhyw le nac amser ; heb delerau lleol neu genedlaethol ; heb fod yn gyfryw a bod rhyw amgylchiadau neillduol yn galw am gyfnewidiad. Crefydd ar gyfer pawb o bobl y byd : "y ddoe a heddyw yr un yn dragywydd." Caniataer iddo egluro ei hun : " Y pwynt yw hi (y Grefydd Ddiamodol) lle mae ewyllys dyn ac ewyllys Duw yn un a diwahan. Mae ei ffynhonell yn ddiamodol, ei nod yn ddiamodol, ei dull neu gynllun yn ddiamodol. Ni ddyd i lawr un gredo ; ni ofyn am un arwydd-lun *(symbol)* ; ni pharcha na lle nac amser fel ag i gau allan amseroedd o lleoedd eraill, a gall gan hyny ddefnyddio pob lle ac amser. Cyfrifa ffurfiau yn ddefnyddiol i'r sawl a helpir ganddynt ; gall un ddal cymundeb â Duw trwy y bara a'r gwin, arwydd-luniau o'r corff a ddrylliwyd, a'r gwaed a dywalltwyd yn achos y gwirionedd ; gall arall ddal cymundeb ag ef trwy y mwswm a'r *violet*, y mynydd a'r môr, ac Ysgrythyrau'r heuliau, y rhai a ysgrifenodd Duw yn y wybren fry ; nid erys gyda'r cyfryngau ; prisia yr hyn a arwyddoceir yn fwy na'r arwydd. Ni ŵyr ddim am y gwahaniaeth plentynaidd rhwng Rheswm a Dadguddiad ; ni ddaw byth o hyd i'r gwrthddywediad honedig rhwng Synwyr da a Chrefydd. Ei Theml yw pob lle ; ei Chyssegr y galon bur ; ei Chred yr oll o wirionedd ; ei Ffurfiau gweithredoedd o gariad ac o ddefnyddioldeb ; ei Chyffes Ffydd, bywyd gwrol, gweithredoedd oddiallan, ffydd oddifewn, cariad at Dduw a dyn."

Crefydd a chariad, nis gallant byth ehedeg yn uwch na gwirionedd a Christ-'nogaeth. Bydd byth uwchlaw iddynt. Mae fel pe ceisiem ehedeg at seren, yr hon a ddaw yn fwy a dysglaeriach pa agosaf y dyneswn atti, hyd nes myned o honom i mewn i'w gogoniant a chael ein llyncu i fynu ynddo.

Yn ddiddadl daw oes pan y cyfrifir ein hoes ni yn gyfnod o dywyllwch, tebyg i'r 6ed ganrif, pan yr ymbalfalai dynion am y pared gan dripio a chwympo, am yr ymddiriedent i syniad diflanol yn lle i wirionedd trag'wyddol; pan yr oedd temlau llawn o ddelwau wedi eu gosod i fynu gan ffolineb dynion; oes yn yr hon nid oedd goleuni Crist'nogaeth wedi ond dechreu llewyrchu yn eu calonau. Ond tra'r elo'r cyfnewidiad hwn ym mlaen, tra fod un genhedlaeth o opiniynau yn myned ymaith ac un arall yn codi i fynu, mae Crist'nogaeth ei hun, y grefydd bur hono, yr hon a hanfoda yn drag'wyddol yng nghyfansoddiad yr enaid a meddwl Duw, o hyd yr un. Am y gwir hwn yr ydym yn ddyledus i Dduw; am y dadguddiad o hono i Iesu, ein brawd hynaf, dewisol Fab Duw."

Nid yw yr uchod ond braslun amherffaith iawn o'r bregeth. Eto cynwys y pethau penaf, a'r rhanau a roisant y tramgwydd mwyaf, ar a wn i, oddigerth un, a dyma hwnw: nad yw yn mryd gwir Grist'nogaeth i wneyd "Crist yn draws-arglwydd *(despot)* ar yr enaid, ond yn frawd i bob dyn. Ni ddywed ddarfod hyd yn oed iddo ef ddiyspyddu cyflawnder y Duwdod, fel nad oedd modd iddo greu neb o fwy; oblegyd 'gydag Ef y mae pob peth yn bossibl,' ac nid yw yr Hen Destament na'r Newydd chwaith byth yn awgrymu fod creadigaeth yn diyspyddu'r Creawdwr." Mawr y cyffro a achosodd y bregeth. Tybiwyd yn iawn ei hargraffu, ond ni cheid llyfrwerthydd yn holl Boston i osod ei enw wrthi, hyd nes o'r diwedd y darfu i un yn perthyn i gyfundeb y Swedenborgiaid (plaid fechan yn galw eu hunain ar enw y Barwn Emmanuel Swedenborg) ymfoddloni. Yr oedd wedi myned yn iwbwb wyllt trwy'r gwersyll. Fe unodd y gweinidogion Trindodaidd ag oeddynt bresenol yn yr urddiad mewn gwrthdystiad cyhoeddus; ac uchel oedd y waedd gyffredinol yn erbyn yr awdwr a'r bregeth. Cymerodd y newyddiaduron duwinyddol a masnachol y gwaith mewn llaw o ddynoethi ei drygedd. "Anghredwr," "*Infidel*," "*Atheist*," oedd y teitlau a roid i'r awdwr gan ei frodyr yn y weinidogaeth. Aeth un gweinidog oedranus mor bell ag argraffu llythyr yn un o'r newyddiaduron helaethaf ei ledaeniad ar y pryd yn America yn galw ar y Cyfreithiwr Cyffredinol i erlyn, y *Grand Jury* i ddyfarnu yn euog, a'r barnwr i'w gondemnio i dair blynedd o garchar yng Ngharchar y Llywodraeth, am gabledd.

'Nid oes un drwg yn ddrwg i gyd.' Parodd y fath wrthwynebiad llidiog fod llawer o brynu a darllen ar y bregeth. Ond tynodd y rhan fwyaf o gyfeillion clerigol yr awdwr yn ol. Ni wnai rhai o honynt siarad ag ef ar yr ystryd; ni siglent law ag ef; yn eu cwrddau cyhoeddus gadawent yr eisteddleoedd lle y byddai, gan ymddidoli oddiwrtho fel Iuddewon oddiwrth ddyn gwahan-glwyfus. Ym mhen ychydig fisoedd yr oedd y rhan fwyaf o'i gyd-lafurwyr yn y weinidogaeth wedi ei adael, a dim ond chwech a ganiataent iddo i bregethu yn eu pwlpidau. Darfu i'r dynion dylanwadol yn yr enwad basio penderfyniad: "rhaid gyru taw ar y dyn ieuanc hwn." Cauid y cyhoeddiadau Undodaidd yn ei erbyn; rhaid oedd i'r cyhoedd beidio a darllen yr hyn a ysgrifenai. Gwnaed cynnygion dan law i yru rhyngddo a'i gynulleidfa fechan, ac i'w wthio ymaith o'i gylch anghyoedd yn West Roxbury, ond i ddim dyben. Yn ei eiriau braf ei hun ar ol hyn, dywed: "Nid

aethum i ryfel heb fwrw'r draul. Gwyddwn yn dda ym mlaen llaw yr hyn a'm harosai, ac yr oeddwn wedi penderfynu ymladd y frwydr allan heb unwaith feddwl ildio a chymeryd fy nystewi. Dywedais wrth fy ngwrthwynebwyr mai yr unig ddyn a allai 'yru taw arnaf' oeddwn i fy hun, a hyderwn i beidio gwneyd dim i ddwyn o amgylch y fath ganlyniad. Pe cawswn fy ngwthio allan o'm capel fy hun, gwnes fy meddwl i fynu i ddarlithio o dref i dref, o bentref i bentref, ïe, os yn angenrheidiol, o dŷ i dŷ, yn dra sicr fy meddwl na chawn fyned fel hyn dros faesdrefi *(hamlets)* Lloegr Newydd, nes i rywbeth ddyfod. Ond daeth y gymdeithas fechan yn West Roxbury ym mlaen yn haelfrydig i'm cynnal a'm amddiffyn, gan estyn i mi'r cydymdeimlad mwyaf calonog, a chynyg i mi'r holl dynerwch yn eu gallu." Teg yw dweyd hefyd ddarfod i rai gweinidogion a gwŷr lleyg *(laymen)* rhyddgalon sefyll ar ei du, gan bregethu neu ysgrifenu mewn amddiffyniad i ryddymofyniad a rhydd-lafar hyd yn oed yn y pwlpid.

Ym mis Mai y traddodasid y bregeth. Ym Mehefin yr un flwyddyn, yn bwrw nad rhyw eithaf teg oedd triniaeth fel hyn anfonwyd cais ato o Boston i dd'od drosodd i draethu ei syniadau yn rhydd. Ar y cyntaf gwrthododd, yn fwy ofnus nag o ddim arall, na fedrai wneyd cyfiawnder a'r testunau y carai eu trafod. Ond yn ystod y gauaf canlynol (1841-2) cydsyniodd i draddodi pum darlith yn Boston, y rhai wedi hyny a ymddangosasant yn gyfrol o dan y teitl o "Draethawd ar Faterion yn perthyn i Grefydd." Cafodd wrandawiad lliosog a brwdfrydig. Deuai'r myfyrwyr drosodd o Cambridge wedi nos, ac ymgasglai y meddylwyr mwyaf difrifol a rhyddfrydig trwy y lle, i glywed beth oedd ganddo i ddweyd. Cyhoeddid y darlithiau yn y newyddiaduron, a bu galwad arno i'w traddodi mewn llawer tref y gauaf hwnw, a'r gwanwyn canlynol ymddangosasant yn llyfr. Cafodd lyfrwerthwr y tro hwn; un o'r llyfrwerthwyr mwyaf cyfrifol yn holl America, a chyfaill calon iddo. Ond yr oedd dau ddyn y rhai a droent yn y cylchoedd mwyaf anrhydeddus yn Boston wedi bod yn ymhwedd ar y llyfrwerthwr, Mr. James Brown, i beidio ymhel mewn un modd a'r llyfr. "Ni a fynem," meddent, "ei gwneyd hi yn amhosibl iddo i gyhoeddi ei lyfr."

Wrth ysgrifenu bywgraffiad onid iawn talu teyrnged lle y mae teyrnged yn ddyledus? Yn nesaf at y Beibl bu y llyfr hwn o eiddo Mr. Parker i ysgrifenydd y llinellau hyn y moddion penaf i'w ddwyn i iawn ddeall ac i garu y grefydd Grist'nogol. I eraill gall na fydd hyn o gymaint pwys, ond iddo ef ymddengys nid yn rhy amhwysig i gael ei gofnodi, yn neillduol gan i fod y fath gyhuddiadau disail wedi cael eu dwyn hyd yn oed yn y wlad hon yn erbyn y "Traethawd ar Faterion yn perthyn i Grefydd." Arweiniwyd ef i'w ddarllen, trwy waith un o weinidogion yr Undodiaid yng Nghymru yn sôn am Mr. Parker mewn yspryd gwawdus ac anghrist'nogol. "Cynddaredd dyn a'th folianna." Dymunwn roi un cynghor yn y fan hyn: os dygwydd i fyfyriwr glywed un o'i athrawon, neu rywun arall yn rhedeg i lawr ryw awdwr neillduol na wyr eisioes am dano, mŷned ef yn ddioed, a darllened drosto ei hun. Yn lle yn o beth na chymerer gair athrawon colegau mwy nag eiddo rhyw bersonau eraill.

Gormod gwaith fyddai rhoi braslun o gynwysiad y llyfr hwn. Tybiwn na fu llyfr o'i faint erioed yn trafod y fath amledd o bynciau dyrus gyda chymaint o feistrolaeth, cymaint o ymgydnabyddiaeth ag egwyddorion sylfaenol crefydd, fel y maent i'w cael ac fel yr amlygant eu hunain mewn dyn, yn unigol a chymdeithasol. Mae nid yn unig yn gynyrch meddwl galluog

ond hefyd meddwl uchel-ddiwylliedig, aeddfed, a hefyd dwys-ddifrifol. Llyfr a deall a chalon yr awdwr yn amlwg ynddo ym mhob man yw. Ni wnaiff neb achwyn am dano nad yw na brwd nac oer. Mae curiadau nerthol calon yr awdwr i'w clywed ym mhob tudalen. Bydd ambell i lyfr yn dwyn i'n cof ryw hen ystafell lychlyd, ac arogl blynyddau wedi ymgasglu ac yn aros o'i mewn, a thawch sypiau o flodau wedi gwywo a hir fallu; ond trwy y llyfr hwn cawn awelon balmaidd y gwanwyn yn chwythu, ac arogl mor ffres a phêr ag eiddo'r teccaf o'r briallu a'r *violets* gwylltion y bu'r awdwr yn eu casglu'n llanc ar hyd gloddiau a llethri Lexington. Pe pob llyfr ar dduwinyddiaeth wedi ei ysgrifenu yn debyg i hwn, caent o leiaf eu *darllen*, a deffroent dipyn ar y teimladau dynol o fewn, a thoddent dipyn ar y îa tragwyddol o ddifaterwch ag sy'n toi llawer calon.

Rhenir y gwaith i bump o lyfrau: 1. Ar Grefydd yn gyffredinol, neu Draethawd ar yr Elfen Grefyddol a'i Hamlygiadau; 2. Ar Berthynas y Syniad Crefyddol â Duw, neu Draethawd ar Ysprydoliaeth; 3. Ar Berthynas y Syniad Crefyddol â Iesu o Nazareth, neu Draethawd ar Grist'nogaeth; 4. Ar Berthynas y Syniad Crefyddol â'r penaf o Lyfrau, neu Draethawd ar y Beibl; 5. Ar Berthynas y Syniad Crefyddol â'r penaf o Sefydliadau dynol, neu Draethawd ar yr Eglwys. Ond ystyried y testunau uchod ceir rhyw gip-olwg ar eangder anferthol y maes yr eir drosto. Ar ddiwedd ei Ragymadrodd dywed yr awdwr: "Nis gallaf yn unig ond dymuno na chaffo'r cyfeiliornadau yn y llyfr hwn ddim ffafr, ond marw o honynt yn fuan; a bod i'r gwirioneddau yr amcana yn ostyngedig i'w gosod allan i wneyd eu gwaith da a hardd." Gwnaeth y llyfr hwn ef yn adnabyddus nid yn unig yn America ond hefyd yn y wlad hon ac ar gyfandir Ewrop yn enwedig yn yr Almaen, (ac yn ddiweddarach cafodd ei gyfieithu i'r Almaenaeg). Gwelwyd ar unwaith mai nid rhyw ganwyll frwynen oedd wedi bod yn dychrynu gwarcheidwaid iawn-gredodd yn yr America, ond seren o'r maintioli mwyaf. Dyma'r llyfr am ba un y dywed James Martineau, un o feddylwyr blaenaf ein gwlad: "ddarfod i'w sect ei hun (yr Undodiaid) esgymuno Parker, ond fod y llyfr wedi trafaelu i bob man lle y siaredir yr iaith Saesneg, ac arddangos ei gyfoeth o feddyliau, *gan aros hyd yn hyn heb ei atteb.*" A gesyd ar lawr ofyniad llawn o addysg, yn y blynyddau hyn yn gystal a phan yr ysgrifenwyd ef, i'r sawl y perthyn iddynt: "A anghofir y bydd credöau yr ymosodir arnynt yn barhaus ond na ddiffynir byth yn sier o drengu?" Mr. Martineau a ysgrifenodd yr adolygiad goreu hyd y gwn i, ar y llyfr, o bob un a ymddangosodd yn y wlad hon, sef yn y *Prospective Review* am Chwef. 1846. Cryn deyrnged i unrhyw awdwr yw fod James Martineau yn adolygu ei lyfr. Dim ond llyfrau gwir werthfawr a gymer dan sylw, a phob amser tafl ei holl ben a'i holl galon i'r gwaith; ac ymafla, fel ymofynydd gonest am y gwir, yn y cwestiynau a drinir. Felly y gwna yma. Ar lawer o bethau nid yw yn cyttuno â Mr. Parker, ond tal y deyrnged uwchaf i yspryd gwresog, diffuant y llyfr. Cydnebydd fel rhagoroldeb rhy brin o lawer mewn awdwyr, i fod enaid a chalon yr awdwr yn y llyfr hwn. Efe ei hunan sy'n llefaru. *Am ei fod yn credu* y llefara. Sylwa mai maes aruthrol o eang yw yr un a gymer Mr. Parker i un dyn ei gynyg, ac eto mai dim ond prinder lle sy'n peri fod yr awdwr yn llai helaeth ar brydiau nag y gellid dymuno. Bwria mai ychydig o ddynion yn fyw y pryd hwnw a garent ymddadleu â'r awdwr ynghylch rhyw un o blith ei lawer o heresiau. Edrych arno fel yn dangos gwybodaeth, a chyfarwydd-deb ag awdwyr hen a

diweddar hollol ryfeddol mewn dyn mor ieuanc. Dywed fod yr Almaenwr, o ran cyflawnder ei ddysgeidiaeth, y Ffrencwr o ran ei fanylder a'i ddeheurwydd i gyfleu a dosparthu, a'r Sais o ran cadernid ac ëangder ei gydymdeimlad moesol, ei dynerwch cuddiedig a'i frwdfrydedd cryf angerddol, wedi cwrdd yma yn yr un dyn. Ond rhaid i ni ymattal rhag ychwanegu gyda nodi un peth neillduol: yr oedd arddull y llyfr mor syml, naturiol a chalonwresog a phe na ddarllenasai ei awdwr dudalen erioed.

Yng ngauaf 1842-3, traddododd, yn Boston, chwech o "Bregethau ar gyfer yr Amserau," yn trafod Duwinyddiaeth a chrefydd a chymhwysiad yr olaf at fywyd beunyddiol dyn. Bu raid iddo eu traddodi mewn saith o wahanol lefydd yng nghymydogaeth Boston yn fuan ar ol hyn.

Ion. 23, 1843, bu cwrt pwysig yn cael ei gynnal gan weinidogion Boston ar Mr. Parker, mewn cyssylltiad â'i lyfr, y "Traethawd ar Faterion yn perthyn i Grefydd." Rhyw gynyg oedd i benderfynu am byth y berthynas oedd i hanfodi rhwng Mr. Parker a'r gweinidogion a wnaent i fynu gymdeithasfa Undodaidd Boston. Buasent droion yn dadlu oddeutu'r llyfr ac yntau'n absenol; o'r diwedd penderfynasant roi gwahoddiad iddo, o ran tegwch a moesgarwch, i fod yn bresenol. Rhyw gwrt lled hynod oedd. Un o'r rheolau oedd—y clod mwyaf allasent byth ei roi i'w fedr a'i wroldeb —nad oedd athrawiaethau'r llyfr i gael eu dadlu. Cymerid yn ganiataol fod y llyfr yn hereticaidd. Y ddau gyhuddiad oeddynt (1.) Fod y llyfr yn hynod o ddeistaidd, ag arfer y gair yn ei ystyr oreu; (2.) Nid yn unig nid oedd yn Grist'nogol ond yr oedd o duedd i ddadymchwelyd Crist'nogaeth. Yr oedd Mr. Parker mor addfwyn a'r oen, etto mor wrol a'r llew. Er mor boenus a chynil ei sefyllfa cyfarfyddodd ei wrthwynebwyr yn hollol rwydd a didrafferth. Gyda golwg ar y cyhuddiad cyntaf sylwodd fod pawb Deistiaid yn gwadu'r possiblrwydd o ysprydoliaeth uniongyrchol oddiwrth Dduw, tra yr oedd hon yn un o brif athrawiaethau ei lyfr ef. Daliai fod pawb yn ysprydoledig yn ol maint eu galluoedd a'r defnydd ffyddlawn o'r galluoedd hyn. Annheg oedd rhoddi iddo ef enw nad oedd yn ei ddesgrifio'n iawn. Os mynent ei alw'n Ddeist, dylasent ei osod mewn dosparth ar ei ben ei hun, a deffinio'r enw o'r newydd. Gyda golwg ar yr ail gyhuddiad, ei farn ostyngedig ef oedd fod ei lyfr yn llyfr o'r mwyaf Crist'nogol. Yr oedd Crist'nogaeth yn un o dri pheth: yn llai na Chrefydd Ddiamodol, cyfartal a hi, neu fwy na hi. Nid oedd neb a ddaliai'r cyntaf. Daliai ef yr ail fod Cristnogaeth a Chrefydd Ddiamodol yn gyfled a gogyhyd y naill a'r llall—y termau yn gyfystyr. Dalient trwy y trydydd, fod Crist'nogaeth yn cynwys Crefydd Ddiamodol *a rhywbeth arall.* Carai wybod beth oedd y rhywbeth arall. Atebodd un maes o law mai'r gwyrthiau, awdurdod Crist, yr hyn nid oedd Mr. Parker yn gydnabod. Atebodd yntau ei fod ef yn gwneyd Crist'nogaeth yn gynwysedig mewn cariad at Dduw a dyn. A chaniatau (er mwyn ymresymiad) i wyrthiau gael eu cyflawnu, nis gwelai pa fodd yr effeithiai hyn ar y mater; pa fodd y gallai gwyrthiau gyfansoddi yn wirionedd ac yn ddyledswydd yr hyn nid oedd felly o'r blaen. Ond ni chredai ef y ffaith y gwnai Crist wyrthiau. Nid oedd mewn un modd yn sicr i'r Efengylau gael eu hysgrifenu gan y sawl y dugant eu henwau; ac os oeddent nis gallai ef gymeryd eu gair o dan yr amgylchiadau. Nid oedd ganddo yr un gwrthwynebiad philosophyddol i wyrth yn ol ei ddeffiniad ef o honi, ond yn unig y gofynai am fwy o brofion dros wyrth na thros ryw ddygwyddiad arferol. Yna cododd rhyw frawd i ddweyd eu bod wedi

clywed digon, ei bod yn amlwg nad oedd Mr. Parker yn Gristion, gan mai dadguddiad goruwch-naturiol a gwyrthiol oedd Crist'nogaeth. Atebodd yntau y dichon y taw ef, ond nad oedd hyny wedi ei ddangos. Ei bod yn ymddangos yn wrthun i wneyd gwyrthiau yn shibboleth Crist'nogaeth. Fod gan bob sect ei shibboleth ei hun, gan y Trindodiaid eu namyn un deugain erthyglau, gan y Pabyddion eu heglwys, ac felly yn y blaen. Nad oedd neb yn ei gyhuddo ef o bregethu llai na moesoldeb a chrefydd diamodol: cariad at Dduw a chariad at ddyn. Ac os gallent fyw heb Grist'nogaeth, gan ddyfod yn rhinweddol ac yn ddduwiol yr hyn a addefent hwy, yna o ba werth oedd Crist'nogaeth? Y tybiai ef mai camsynied dybryd oedd gwneyd Crefydd Ddiamodol yn un peth, a Christ'nogaeth yn beth arall. Yna cododd rhywun i ddweyd ei bod yn amlwg nas gallent fel gweinidogion gyfeillachu â Mr. Parker—ei fod yn gwadu'r gwyrthiau. A bê cryn dipyn o siarad drachefn. Yn agos i'r diwedd cododd Mr. Bastol i siarad gan ganmol diffuantrwydd Mr. Parker, a rhoi iddo uchel glod ar lawer ystyr. Gwnaeth Mr. Gannett yr un peth. Yna agorodd Mr. Chandler Robbins ei enau gyda'r un bwriad. Ar hyn torodd Mr. Parker allan i wylo a gadawodd yr ystafell a thuag adref. Ni faliai ddim am eu gwrthwynebiad a'u gerwindeb; siaradasai â hwy trwy'r nos er gwaethaf pob sarbad, ond pan drodd rhai o honynt i arfer iaith garedig, methodd a dala. WILLIAM THOMAS.

Y CWPPAN YN LLIFO DROSTO.

YR oedd cwmni o foneddigesau un tro yn ymgynulledig ym mharlwr cyfaill, pan ddigwyddodd yr ymddiddan droi ar trallodau daearol. Yr oedd gan bob un ei hystori o brofedigaeth a cholled neillduol i'w adrodd. Dywedodd un o honynt rhywbeth fel y canlyn: "Yr oedd fy rieni yn meddu digonolrwydd, ac amgylchynid boreu fy mywyd gan holl gyssuron bywyd. Braidd y gwyddwn beth oedd dymuniad heb ei gyflawni. Yr oeddwn bob amser yn llawen ac yn ysgafn o galon, ac yn bedair ar bymtheg oed priodais un a garwn yn fwy na'r holl fyd. Yr oedd ein cartref mewn mân neillduedig, ond ni ddisgleiriodd yr haul erioed ar gartref mwy hyfryd—mwy dedwydd. Yr oedd y blynyddau yn treiglo ymaith yn dangnefeddus. Yr oedd pump o fechgyn yn eistedd oddiamgylch i'n bwrdd ac un pen bach cudynol yn ymnythu yn fy mynwes. Un nos, tua machlud haul, daeth un o'r ystormydd ffyrnig, tywyll, hyny sy mor gyffredin yn ein cleimat Deheuol ni yn y blaen. Am oriau ac oriau yr oedd y gwlaw yn curo yn ddibaid. Gwawriodd y boreu, yr oedd yr elfenau o hyd yn rhuo. Yr oedd y nant fach ger llaw ein hannedd wedi myned yn afon chwyrn! Cyn ein bod yn gwybod yr oedd ein tŷ wedi ei amgylchynu gan ddwfr. Llwyddais gyda fy mhlentyn bach i gyrhaedd spotyn bach, ar yr hwn yr oedd coed mawrion, dan ganghenau deiliog y rhai y cawsom ryw ychydig o gysgod, tra yr oedd fy ngwr a'm meibion yn ceisio achub yr hyn allent o'n meddiannau. O'r diwedd daeth grym o ddwfr ac ysgubodd fy ngwr ymaith, ac ni chyfodododd efe byth mwy. Foneddigesau, ni fu neb erioed yn caru ei gwr yn fwy—ond *nid oedd hwna yn drallod.*

"Yn fuan gwelodd fy meibion eu perygl, a daeth yr ymdrech am fywyd yn unig bwngc eu hystyriaeth. Yr oeddynt mor ddewr, mor gariadus bechgyn ag a fendithiodd galon mam erioed, a gwelais eu hymdrechion i ddiangc

gyda phoen nas gall neb ond mamau ei deimlo. Yr oeddynt mor bell fe nas gallswn i ddim siarad wrthynt, ond yr oeddwn yn gallu eu gweled yn dyfod yn nes nes at eu gilydd, fel yr oedd yr ynysoedd bychain yn dyfod yn llai llai. Yr oedd yr afon chwimwth yn chwyrnu o amgylch i'r coedydd mawrion ; ac yr oedd canghenau crinion, a da a defaid wedi eu boddi, yn cael eu cludo heibio i ni gan y llif. Trôdd fy meehgyn un llaw attaf, ac wedi hyny pwyntiasant tu ag i fyny. Gwyddwn mai *signal* ffarwel ydoedd, a chwithau famau nis gallwch ddychymmygu chwerwder y loes a deimlais. Gwelais hwynt oll yn marw, ac etto—*nid oedd hwnw yn drallod!*

Cofleidiais fy maban, gwasgais ef yn agosach agosach at fy nghalon, a phan ddaeth y dwfr i fyny hyd at fy nhraed, dringais i ben canghenau isaf y goeden, ac felly ymgedwais yn ddiogel hyd nes i Law Hollalluog i attal y dyfroedd, fel na ddeuent ym mhellach. Cefais fy achub. Yr oedd fy holl feddiannau bydol wedi eu hysgubo ymaith ; yr oedd fy holl obeithion daearol wedi diflànu, etto—*nid oedd hyny yn drallod.*

Fy maban oedd yr hyn oll oedd wedi ei adael i mi ar y ddaear. Gweithiais yn galed ddydd a nos i'w gynnal ef a fy hunan, a cheisiais ei hyfforddi yn y ffordd iawn ; ond fel yr oedd yn dyfod yn henach, daeth cyfeillion drwg a denasant ef oddiwrthyf. Ni ofalai mwy am gynghorion ei fam; yn fynych gwatwarai ei deisyfiadau taer a'i gweddiau dwys. Gadawodd fy nghronglwyd isel, fel y gallasai fyned rhag ei flaen yn ddilywethyr yn ei lwybrau drwg, ac o'r diwedd, pan oedd un noswaith wedi meddwi, cymmerodd ymaith fywyd un o'i gyd-ddynion, a therfynodd ei fywyd ei hunan ar y grogbren. Yr oedd fy Nhad o'r Nefoedd wedi llanw fy nghwppan o dristwch o'r blaen, ond yn awr llifodd drosto. *Yr oedd hwnyna yn drallod,* foneddigesau, yn gyfryw ag yr wyf yn gobeithio y bydd i Dduw yn ei drugaredd eich arbed chwi bob un o honoch, rhag byth ei brofi."

Christian Freeman. *Cyf.* W.

GORHOFFEDD PRINCE ALBERT.

GERMAN CHORALE.

A favourite of Prince Albert's, sung also at his funeral.

I shall not in the grave remain
Since Thou death's bonds hast sever'd,
By hope with Thee to rise again,
From fear of death delivered ;
I'll come to Thee, where'er Thou art,
Live with Thee, from Thee never part ;
Therefore to die is rapture.

And so to Jesus Christ I'll go,
My longing arms extending ;
So fall asleep in slumber deep—
Slumber that knows no ending ;
Till Jesus Christ, God's only Son,
Opens the gates of bliss—leads on
To Heaven—to life eternal!

CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG.

Ni châf fi aros yn y bedd,
Can's tòraist Ti ei rwymau ;
Mewn gobaith codi gyd â Thi,
'Rwy'n rhydd oddi wrth ei ofnau ;
P'le bynag wyt dof atat Ti,
A chyd â t' byth arosaf fi,
Am hyn mae marw yn hyfryd.

Ac felly at Iesu Grist yr âf,
Fy mreichiau ato'n estyn ;
Ac i'r hun olaf syrthio wnâf,
Yr hwn sydd heb un terfyn.
Nes egyr Iesu Grist, Fab Duw,
Y porth i'r nefoedd, lle caf fyw
Mewn gwynfyd yn dragwyddol.

U. U.

ENWAU.

Ychydig sylwadau cywrain, os nid cywir, ar darddiad rhai o honynt, wedi eu tynu allan o hen lyfr â'r teitl; "Histori yr Heretic Pelagius," gan S. T. Argraffwyd 1735.

"Pelagius, o ran gwlad ei enedigaeth, gwr o'r ynys hon [*Brydain*] ydoedd; ein cydwladwr ni ein hun. Yn yr Historiau *Eglwysig*, efe a elwir *Pelagius;* canys hwn oedd yr enw a chwenychodd ac a ddewisodd gael ei alw wrtho. Y mae amryw achosion am ba rai y mae dynion yn newid eu henwau; rhai a newidiant eu henwau o ran elw a manteision tymmhorol; trwy hynny weithiau y mae rhai yn dyfod i fwynhau etifeddiaeth: eraill a newidiant eu henwau er mwyn cadw eu hun yn geledig, a thu ag at ddiangc y cosp a haeddant am eu drygioni; megis ysbeilwyr pen-ffordd, torrwyr tai, a'r cyffelyb ddrwgweithredwyr: eithr y mae rhai a newidiant eu henwau o wir falchder a chwant anrhydedd; canys fe gyfrifir rhai enwau yn fwy anrhydeddus, ac o sain mwy godidog nac eraill, fel hyn y gwna y Pab. Y Pab hwyngynted ac y caffo ei dderchafu i'r lle anrhydeddus hwnw, efe a dry ymaith yr enw oedd iddo o'r blaen, ac a gymmer arno y cyfryw enw ag y wel yn dda ei ddewis. Ac felly oblegid *Pelagius* o hono yntef. Yntef a welodd yn gymmwys newid ei enw. Hyn oedd un o'r pethau cyntaf a ddangosodd falchder y dyn hwnnw. Tebygodd y byddai'r enw hwn yn fwy manteisiol iddo; yn fwy cymmeradwy a pharchedig ym mysg y Rhufeiniaid a'r Groegiaid. Nis gallwn ddychymig y gallai fod gantho un diben arall, amgen na hyn, yn ei *waith yn newid ei enw*.

"Ei enw cyntaf priodol ef oedd Morgan. Yr enw hwn sydd gyffredin ym mysg y Cymru hyd heddyw. Y Cymru a'i cymmerasant oddiwrth yr hen Rhufeiniaid. Canys preswyliodd y Rhufeiniaid yn yr ynys hon ym mysg y Brytaniaid amryw gannoedd o flynyddoedd. Yr enw Rhufeinaidd oedd *Marcus*. Nid oedd un enw agos mwy cyffredin ym mysg y Rhufeiniaid na'r enw hwn. Y Cymru a'i cymmerasant ac a'i galwasant *Marc:* Ac o'r enw [*Marc*] ffurfiasant enw arall, yr hwn oedd *Marcyn*. Ac ar ol hir arferiad yr enw hwn [*Marcyn*] rhoddodd tafod y bobl gyffredin droad iddo, ac a'i galwasant Morgan.

"Yr un gyffelyb beth a wnaethant mewn perthynas i'r enw *Ioan*. *Ioan*, gair Hebraeg yw: fe'i arferid yn gyffredin iawn ym mysg yr hen Iuddewon. *Iochanan* a'i galwent; mae'n dyfod o'r gair Hebraeg [Chanan] yr hwn sy'n arwyddoccau *graslawn*. Yr enw Hebraeg *Jochanan*, y Groegiaid a'i galwent ac a'i scrifenent *Joannes;* a'r Rhufeiniaid *Johannes*. Y Cymru a'i cymmerasant oddiwrth y Rhufeiniaid ac a'i galwasant *Ioan*. *Ioan* y galwe y Cymru ef ar y cyntaf: eithr ar ol hir arferiad, y cyffredin bobl a'i lled-droesant ac a'i galwasant *Iouan*, ac ar ol hynny *Iewan*, ac o'r diwedd *Ifan*. Y Saeson o honynt hwythau a gymmerasant yr enw hwn *Johannes*, ac a'i galwasant *John*. Yr enw John, y Cymru a'i cymmerasant oddiwrth y Saeson, ac a'i galwasant Shôn: ac o'r enw hwn Shôn y cyffredin a ffurfiasant enw arall, sef Shoncyn; a'r enw hwn Shoncyn trwy hir arferiad a drowyd ac a alwyd Shencyn. Ac felly Ioan, Iouan, Iewan, Ifan, Shôn, a Shencyn nid ydynt ond un enw, wedi ei wyrdroi a'i drawsffurfio gan dafodau y bobl gyffredin. Felly hefyd Walter, Wat, Watcin. Yn yr un modd Marcyn a alwyd, o'r diwedd Morgan. Eithr Pelagius, er bod o hono yn Lladingwr gweddol, etto ni ddangosodd ef yma fod gantho wybodaeth dra chywrain yn nhafod-

iaeth ei wlad ei hun. Canys fe debygodd fod ei enw ef [Morgan] yn arwyddoccau y *Mor heli;* ac am hynny efe gymmerodd yr enw Llading am y gair Mor, sef *Pelagus.* Y Rhufeiniaid a'r Groegiaid a alwant y Mor *Pelagus.* A thrwy chwanegiad un lythuren fe ffurfiodd ei enw *Pelagivs.* Ac oddiwrth yr enw hwn y mae ei ganlynwyr ef yn cael eu galw *Pelagians.* * *

"Y lle hwn* a elwid yn yr amser gynt *Bangor Iscoed;* o herwydd yr Allt Goed oedd y pryd hyny yn sefyll y tu dwyrain iddi. Oblegid yr un gyffelyb achos y gelwir lleoedd Uwch-un-llath, Is-un-llath. Yr arfer oedd yn yr amseroedd gynt taflu i fynu glawdd o lathed o led, i wahanu rhwng talaethau ac ardaloedd. A'r tir oedd yn sefyll y tu dwyrain i'r clawdd hwnw a gyfrifid ac a elwid Uwch-unllath; ond y tir a'r wlad oedd yn sefyll y tu gorllewin iddo a elwid Is-un-llath. Y mae tref yng Ngwynedd a gadd ei henw oddiwrth yr achlysur hon: fal hyn, Uwch-un-llath, Yn-uwch-un-llath, ac ar ol hynny Ym-uwch-un-llath, ac o'r diwedd 'Mywch-un-llath. Y tir o'r tu gorllewin i'r clawdd a alwyd Is-un-llath; oddiyno rhoddwyd enw i'r lle hwnw a elwir Carreg-is-un-llath, Carreg-is-ty-un-llath, yn gyffredin Carreg-ys-ty'm-llath. * * *

"Y sect hon a alwyd *Semi-Pelagians;* hynny yw yn Gymraeg, *At-Belagians,* neu *Hanner-Pelagians.* Yr oedd gynt yn Scotland gymmysgedd o genhedl a elwid *At-Cothi,* oherwydd dyfod o honynt trwy gymmysgiad dwy genhedl, sef y *Picts* a'r *Scots.* Nid oeddent na *Phicts* na *Scots;* eithr cymmysgedd rhwng y ddwy genhedl. Am hynny y gelwid *At-Cothi.* Felly y sect honno yn Ffraingc, nid oeddent yn llwyr ddala opiniwnau Pelagius; ac nid oeddent ychwaith yn cytuno ag athrawiaeth gyffredinol yr Eglwys Gristnogol. O ba achos hwy a alwyd *Semi-Pelagians;* yn ein iaith ni At-Belagians, Hanner-Pelagians. Hwy a elwid *Massilians* oherwydd i'r sect hon ddechrau yn nhre Massilia, hynny yw *Marsailes.* * * *

"Gras, gair Llading yw; Athrawiaeth yr Efengyl a gyhoeddwyd yn y wlad hon gyntaf gan bregethwyr o Rhufain; ac am hynny, yn y iaith Lading, canys Lladingwyr oeddent. Ac o achos hynny, llawer o'r geiriau a arferir yn yr athrawiaeth Gristnogol, ydynt o'r iaith Lading. Ac ym mysc llawer eraill y gair Gras. Yn Llading, *Gratia* y gelwir. Y Cymru ar y cyntaf a'i galwasant Rhat; ac o'r diwedd Rhad. Megys y gair Llading Rota, hwy a'i galwasant ar y cyntaf *Rhot,* eithr ar ol talm o amser Rhod; megis ac y gelwir hyd heddyw. Am y gair Gras, fe gymmerwyd yn ddiweddar oddiwrth y Saeson, y rhai a'i galwant *Grace!* Eithr Rhad yw'r priodol air Cymraeg. Q.

* Bangor, yng Nghaernarfon, yng Ngwynedd, lle y dywed yr Awdwr fod Pelagius wedi cael ei ddugiad i fynu.

Marwolaeth Plant.—Y mae'r meddylddrych pert a ganlyn, mewn perthynas i sefyllfa dyfodol plant, wedi deilliaw oddiwrth bin-scrifenu H. W. Beecher: "Pan byddo Duw yn rhoddi i mi faban, yr wyf yn dywedyd, yr wyf yn diolch i Dduw am y lamp hwn yr hwn sy wedi ei oleuo yn fy nheulu. A phan y byddo wedi bod yn oleuni yn fy nheulu am flwyddyn neu ddwy, a'i fod yn rhyngu bodd i Dduw etto ei gymmeryd ymaith, gallaf gymmeryd y cwppan chwerw neu felus; gallaf ddywedyd, y mae fy ngoleuni wedi diffodd; y mae fy nghalon yn glaf; y mae fy ngobeithion wedi eu gwneuthur yn anghyfanedd; yr ydwyf wedi colli fy mhlentyn. Neu gallaf ddywedyd yn yspryd Job, 'Yr Arglwydd a roddodd, yr Arglwydd a gymmerodd ymaith, bendigedig fyddo enw yr Arglwydd.' Y mae wedi rhyngu bodd i Dduw i gymmeryd pump o blant oddiwrthyf, ond ni chollais i un erioed, ac ni chollaf un byth."

FFURF O WEDDI I'W HARFER MEWN ADDOLIAD CYHOEDDUS.

Allan o'r "Drysorfa Gymmysgedig," 1795.

Hollalluog a'r byth Fendigedig Dduw, yr ydym yn edrych arni fel y fraint fwyaf, ein bod yn cael caniattâd i ddyfod ger dy fron yn yr ymarfer o ddefosiwn gyhoeddus, i ymddiddan â thi dan yr enw tyner o Dad a Chyfaill, cael ein hyfforddi yn y wybodaeth o'n dyledswydd, ein heffeithioli a harddwch a rhwymedigaethau rhinwedd, a chael ein tywys yn y llwybr hwnnw o ymddygiad ac sydd yn arwain i'r dedwyddwch uwchaf yn y bywyd hwn, ac a derfyna mewn dedwyddwch tragywyddol yn y byd a ddaw.

Yr ydym yn bendithio dy enw mawr a gogoneddus, am i ti ein cynnysgaeddu â galluoedd moesol a deallawl, trwy yr hyn yr ydym yn abl i gyflawni y fath waith anrhydeddus; ein bod yn abl i cydnabod dy ardderchowgrwydd, cyhoeddi allan dy fawl, canlyn dy berffeithrwydd moesol, a bod yn ddeiliaid dy lywodraeth. Yr ydym yn dy fendithio am ddychweliad cyson yr amseroedd neilltuol hyn, yn y rhai, mewn modd enwedigol, yr ydym yn cael cyfleusdra i argraphu ar ein meddyliau deimlad o'n rhwymedigaethau i ti, a'n ymddibyniad arnat: amseroedd sydd yn galw arnom i dynnu ein sylw oddiwrth ofalon dyrys y bywyd hwn, a'u sefydlu ar bethau pwysig byd i ddyfod, pethau ag sydd yn rhagorfreintiau creaduriaid rhesymmol, sydd waith angylion, ac sydd yn gyssylltiedig a'n cynnydd presennol a thragywyddol mewn rhinwedd a dedwyddwch.

Wedi cael ein cynnysgaeddu yn y modd hwn â galluoedd, wedi cael ein gwneuthur yn feddiannol ar gyfleusderau, yr ydym yn ymgrymmu ger dy fron gan dy addoli y mwyaf a'r goreu o fodau. Bod sydd feddiannol ar allu hollalluog, doethineb di-gamsyniol, a daioni anfeidrol. Tydi yn unig wyt anghyfnewidiol yn dy berffeithrwydd, achwiliadwy yn dy nattur, diysgog yn dy amcanion, a digyfeiliorn yn dy fwriadau. Tydi yn unig wyt yn llenwi pob lle â'th bresennoldeb, a phob amser â'th barhad. Dy fraich yn unig sydd yn cynnal, dy lygad sydd yn canfod ar un olwg bob gwrthddrych trwy y greadigaeth helaeth. Dy allu a greodd, ac sydd yn cynnal, dy ddoethineb sydd yn trefnu, dy ddaioni sydd yn awdurdodi dros yr holl ehangder. Yr ydym yn gweled llwybrau dy berffeithrwydd naturiol a moesol yn ffurfiad cywraint ein cyrph, yng nghynheddfau ardderchoccach ein meddyliau, ac yn sefydliad nattur allanol, cyffroad rheolaidd a chyflym y cyrph nefolaidd, cyfnewidiadau amserol y tymhorau, dyfodiad cyson dydd a nos, cadernid a chydbwys rhyfeddol yr elfennau, amrywiol bwerau defnydd, a gwastadol genhedliad naturiaethau llysieuol, anifeilaidd a deallawl, ydynt yn unig amrywiol weithrediadau dy allu, a'th ddoethineb, a'th ddaioni.

Yn cael dy dderchafu yn y modd hwn trwy dy berffeithrwydd, nid yn unig uwchlaw ein dealldwriaethau, ond hefyd uwchlaw ein mawl, yr ydym yn edrych i fynu gyda diolchgarwch ar dy ymostyngiad rhyfeddol i edrych ar ein haddoliad gwael. Nid oes arnat yn wir eisieu ein haddoliad. Nis gallwn trwy ein haddoliad gwael a distadl ychwanegu at dy ogoniant na'th ddedwyddwch; yr ydwyt yn ymddihattru megis o'th fawredd a'th ardderchawgrwydd, ac yn dy roddi dy hun i'n sylw rhyfeddol fel ein Tad a'n Cyfaill, ein Lywodraethwr a'n Barnwr, mewn trefn i gymmell arnom deimlad caredig o'n dyledswydd, a'n adeiladu i fynu mewn rhinwedd a dedwyddwch. Bydded

gan hynny i'n mynych fyfyrdod ar dy fawredd argraphu ar ein meddyliau bob ardderchawgrwydd moesol a deallawl. Bydded i'th ymostyngiad ein tueddu attat, a'th fawredd helaethu ein serchiadau. Bydded i'th ddaioni fywhau ein diolchgarwch, a'th ysprydolrwydd buro ein defosiwn. Bydded i uniondeb dy lywodraeth sicrhau ein ufudd-dod, a thueddiadau haelionus dy gyfreithiau symmud ymaith ein anfoddlonrwydd, ac esmwythau ein trueni. Nertha ni, yr ydym yn attolwg arnat, i osod yr ymddiried mwyaf sefydlog yn dy ffyddlondeb, a gosod dy addewidion fel sylfaen gadarnaf ein gobaith a'n ymddiried. Cynnorthwya ni fel y gallom edrych i fynu ar anghyfnewidioldeb dy berffeithrwydd fel ffynon ein cysuron mwyaf pur. Bydded i ni fyfyrio ar dy drugaredd a'th ddaioni gyda gwir hyfrydwch, ac hyd y mae ynom dy ganlyn fel y patrwn mwyaf perffaith o ardderchawgrwydd moesol. Pan byddo drygau yn ein cylchynu, pan byddo trallodion yn chwerwi ein bywydau, pan byddo tywyllwch dudew yn cyfodi o'n hamgylch, ein llawenydd yw dy fod di, yr Hollalluog, yn wastad yn teyrnasu, fod dy law yn wastadol yn cyfarwyddo pob digwyddiad, ac y gwnai i bob amgylchiad, er mor anghysurus a fyddont, derfynu yn ein daioni. Bendigedig a fyddo dy enw, yr wyt yn gwneuthur i ddrwg yn gystal a da weithio allan berffeithrwydd, a chyfrannu at ogoniant a ddedwyddwch dy greaduriaid. Yr wyt yn gwneuthur i'r pwerau mwyaf 'styfnig blygu i'th ewyllys, a'r rhwystrau cyndynnaf yn ddefnyddiol i'th ddibenion. Yr wyt yn dwyn trefn a thawelwch oddiwrth gynnwrf a chymmysgedd. Yr wyt yn gwneuthur hyd yn oed i'r terfysgoedd mwyaf gorwyllt ddwyn yn y blaen drefn dy lywodraeth, a chydgordiad dy gyfreithiau. Pan byddo rhyfeloedd, balchder, ymddyrchafiaeth ac ymddial yn terfysgu ac yn cyffroi'r byd, dy ddaioni, dy anfeidrol ddaioni, sydd yn gwneuthur hyd yn oed i'r cynnyrfiadau ddwyn yn y blaen brydferthwch, trefn a happusrwydd dy lywodraeth foesol.

Er dy fod yn y modd hwn wedi bod yn wastadol yn ddaionus tuag attom ; er dy fod wedi arfer dy allu, dy ddoethineb a'th ddaioni o'n plaid, nid ydym wedi dychwelyd diolchgarwch dyladwy i ti. Ti wnaethost bob gwrthddrych sydd yn ein amgylchynu yn weinidog, a phob awr o amser yn gerbyd i ddwyn hyfrydwch i ni. Yr wyt wedi ein cynnysgaeddu âg amryw gynheddfau trwy y rhai yr ydym yn abl mwynhau happusrwydd. Etto nid ydym wedi meithrin serchiadau cymmwys tuag attat, Rhoddwr pob peth. Ti roddaist gynheddfau moesol a deallus er derchafu ein nattur, a dwyn yn y blaen ddibennion dy lywodraeth ; ond yn lle derchafu ein nattur trwy wneuthur defnydd priodol o'n galluoedd er mawrygu, yr ydym yn rhy aml trwy gam-arfer o honynt wedi iselhau ein nattur : yn lle dwyn yn y blaen yr ydym yn aml wedi gwrthwynebu dy ddibenion daionus. O Dad trugarog ! nid o herwydd ein haeddiant ni, ond o herwydd dy fod yn drugarog, yr ydym heb gael ein dihattru o'n cyfleusderau a'n talentau ; o herwydd na ddiffygia dy dosturiaethau, yr ydym heb gael ein llwyr ddifa ; yr ydym yn sefyll ger dy fron fel colofnau o dy drugaredd arbedol ; nertha ni, yr ydym yn attolwg yn ostyngedig arnat, i wneuthur gwell defnydd yr amser i ddyfod o'n talentau, a dyfod yn feddianol ar serchiadau mwy teilwng tuag attat. Bydded i ni ymdrechu fwy fwy mewn gwroldeb i gyflawni ein dyledswyddau, ac i fod yn fwy didwyll a charedig yn ein duwioldeb a'n diolchgarwch. Bydded i ni o hyn allan geisio dy gymmeradwyaeth fel y daioni goreu, a gochelyd dy anfoddlonrwydd fel y mwyaf o bob drygau. Bydded dy ewyllys yn rheol, a'th gymmeradwyaeth yn ddiben ein

holl weithredoedd. Ynghanol pob ammherffeithrwydd, yr holl brofedigaethau i bechod, nertha ni i ymddwyn mewn modd cymmwys, mewn modd anrhydeddus, mewn modd rhinweddol, myned yn y blaen yn ffordd ein dyledswydd yn ddisigl gan ddychryn, yn ddifrycheulyd gan euogrwydd, a diwyrgam trwy dueddiadau anghymmwys.

Nertha ni, yr ydym yn attolwg arnat, i gadw ein sylw yn sefydlog ar ddiben mawr ein creadigaeth. Na ddioddef i ni afradloni ar wrthddrychau bydol, y talentau a'r cyfleusderau hynny a roddaist at ein cymhwyso i gyflwr anfarwol. Bydded i ni gofio bob amser ein bod yn gyfrifol am y defnydd a wnelom o'n cynheddfau deallus, y bydd i ni gael ein galw i ymddangos ger bron dy orseddfainge i roddi cyfrif am y gweithredoedd a wnaethpwyd yn y corph pa un bynnag a fyddont ai da ai drwg. Bydded i'r pwerau rhagorol o reswm a deall ag ydwyt wedi roddi, i'r diben i ni iawn-drefnu ein ymarweddiad, fod yn egwyddorion llywodraethol ein eneidiau. Bydded i ni edrych i fynu ar feithriniad y rhai hyn fel ein anrhydedd pennaf. Dysg ni i beidio ceisio un ragoriaeth ond ardderchawgrwydd moesol, na gwisgo un addurn ond yr addurn o yspryd addfwyn, gostyngedig a llonydd, na cheisio un cyfoeth ond y cyfoeth o weithredoedd da, nac un awdurdod ond yr awdurdod i wneuthur daioni a chyfrannu happusrwydd. Gwel fod yn dda i roddi i ni gyfoeth ac awdurdod, os oes genym gadernid digonol o rinwedd i wneuthur defnydd cymmwys o honynt, os amgen bendithia ni â thlodi.

Gan dy gydnabod di fel ein Tad cyffredinol, dysg ni i edrych ar bawb o ddynolryw fel ein brodyr. Bydded i ni garu y naill y llall, nid oddiar egwyddor ddall bartiol, ond oddi ar egwyddor resymmol—oddi ar deimlad o'n dyledswydd i ti, ac ystyriaeth o'n perthynas gyffredinol a'n gwendidau. Bydded i ni bob amser gael ein llywodraethu gan y cariad rhesymmol a helaeth ag sydd yn cyfodi uwchlaw y gwahaniaeth cnawdol o le ac amser, o wledydd, a lliw allanol, ac a gofleidia holl ddynolryw fel cyd-blant i ti, a chyd-ddeiliaid o'th lywodraeth foesol.

Yr ydym gan hynny yn gosod ein deisyfiadau i fynu ger dy fron ar ran ein brodyr o ddynolryw. Cymhwysa driniadau dy ragluniaeth i'w hamrywiol gyfyngderau a'u hanghenion, diwalla angenrheidiau y tlawd a'r anghenus, esmwytha ar y gorthrymmedig, tywallt falm o gysur i feddyliau y rhai sydd yn nychu dan gystudd a blinder, dychwel y caethwas o'i gaethiwed, dychwel ef i fwyniant hyfrydlon o'i hawl a'i rydd-did. Bendithia ein llywodraethwr y brenin, cyfoethoga ef â'r holl râdau hynny ag sydd angenrheidiol at gyflawniad cymmwys o'i swydd uchel a phwysfawr. Dyro râs iddo i lywodraethu drosom, nid fel gorthrymwr ond fel tad ei bobl, gwna iddo deyrnasu nid ar yddfau ond yng nghalonnau ei ddeiliaid, sefydla ei orsedd ar y sylfaen dragywyddol o wirionedd a chyfiawnder. Bydded iddo ddarostwng gwrthwynebiadau a gyrru ymaith bob anfoddlonrwydd, nid trwy gadwynau haiarnaidd dychryn ac erledigaeth, ond trwy yr edau sidanaidd o ymddiried a serchawgrwydd. Bendithia ei gydmares y frenhines, tywysog Cymru, a'r holl deulu brenhinol. Dyro gyngor i gynghoriaid y brenin, uniondeb i'r gosodwyr cyfraith goruwchaf ac iselaf, fel y byddo i'r bendithion o heddwch a rhydd-did dreiddio trwy bob gwythien o'n sefydliad. Tuedda bob un neilltuol yn eu sefyllfaoedd cyhoeddus ac anghyoedd, i ymdrechu dwyn yn y blaen y daioni cyffredinol, a helaethu y bendithion o rinwedd, gwybodaeth a gwir grefydd. Os oes unrhyw Pharao yn y tir, O meddalhâ ac nid caledu

ei galon. Os oes neb locustiaid yn ymbesgi, unrhyw dwyllwr yn ysglyfaethu heddwch a happusrwydd dy bobl. Os oes neb bleiddiaid yn taenu anghyfiawnder, gorthrymder, a thrallod dros wyneb y ddaear, siomma eu hamcanion, gwrthwyneba eu hymdrechiadau, ond yn rasol maddeu iddynt eu drygioni, diwygia hwynt os yw bosibl, os amgen gwasgara hwynt ar hyd wyneb y belen ddaearol.

Bydded i'r gwledydd annedwydd hynny, lle mae cynddaredd rhyfeloedd yn taenu lladdfeydd ac ysglyfaeth, lle y mae y tân a'r cleddyf yn nodi eu mynediad â difrod a chynnwrf, lle y mae llais gorfoledd a llawenydd wedi ei ddiffodd o'r tir, lle y mae llefain tosturi, ysgrechau y lladdedigion, taranau dychrynllyd offerynnau uffernol rhyfel yn rhwygo'r elfennau, a harddwych wyneb nattur yn cael ei gorchuddio gan waed dynol—bydded i'r gwledydd annedwydd hynny gael terfyniad buan i'w dioddefiadau a'u trallodion. Bydded i greulondeb gwylltfilaidd rhyfel, ag sydd mor wrthwyneb i dueddiad tirion ein crefydd sanctaidd, gael ei gyfnewid am heddwch arafaidd a chyffredinol. Bydded i'r offerynnau anghenfilaidd sydd yn awr yn cael eu harfer i ddistrywio dynolryw, gael eu troi yn offerynnau i ddwyn yn y blaen eu dedwyddwch. Bydded i'r cleddyfau gael eu troi yn sychau, a'r gwaywffyn yn bladuriau; ac na fydded i unrhyw arfau eraill gael byth eu cyfodi ond arfau rheswm, nac un fuddugoliaeth ond trwy gariad ac ewyllys-da, nac un ymostyngiad ond ymostyngiad i allu gwirionedd, a theimlad o uniondeb a chymmwysder.

Mewn trefn i'r dibenion mawrion hyn ddyfod oddi amgylch, bydded i athrawiaethau ein crefydd sanctaidd gael eu deall yn well, a'i hyspryd gael yn fwy siriol ei yfed. Bydded i'w heffaith ddwyfol wasgaru i'r gwledydd annedwydd hynny lle na chafodd erioed ei deimlo. Bydded i'w goleuni dwyfol lewyrchu ar y rhai sydd yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angau. Lle mae yn cael ei phroffesu eisoes, ond wedi ei llygru trwy anwybodaeth, trwy ragfarn, trwy goel-grefydd ac ariangarwch, dychwel hi i'w disgleirdeb dechreuol, i'w phurdeb dechreuol, a'i gallu dechreuol; fel y byddo iddi ddwyn ei phriodol effaith ar dymmer ac ymarweddiad dynolryw, a bod yn allu Duw er iechydwriaeth dynion.

Bendithia weinidogion yr Efengyl o bob enw, cynnysgaedda hwynt â phob cymhwysderau angenrheidiol at gyflawniad priodol o'u dyledswydd fawr a phwysig. Gwna hwynt yn offerynnol yn dy law i wneuthur i rinwedd ffynu yn lle drygioni, rheswm yn lle rhagfarn, gwirionedd yn lle cyfeiliornad, trefn a thawelwch yn lle cynnwrf a therfysg. Bydded iddynt trwy fywiogrwydd eu hesampl yr un wedd a thrwy ragoroldeb eu hathrawiaeth fod yn ddychryn i weithredwyr drwg. Bydded iddynt blygu y 'styfnig, diwygio y beius, cadarnhau y claf, dal i fynu y syrthiedig, cyssuro'r anniddanus, sefydlu yr anwastad, hyfforddi yr anwybodus, ac adeiladu yn y blaen y rhai sydd eisoes wedi eu haddysgu mewn mesur.

Y deisyfiadau hyn yr ydym yn eu gosod i fynu attat yn enw ac fel disgyblion Iesu Grist ein Hiachawdwr, trwy yr hwn y diddymmaist angau ac y dygaist fywyd ac anllygredigaeth i oleuni. I ti, ei Dad ef a'n Tad ninnau, ei Dduw ef a'n Duw ninnau, y byddo gogoniant, mawredd, gallu ac awdurdod. Amen.

CRISTNOGAETH FEL Y PREGETHWYD III GAN CRIST.

TRAETHODYN, GAN B. HERFORD.

Pan oedd Martin Luther am osod un o'i wrthwynebwyr, yr hwn oedd yn amddiffyn awdurdod yr Eglwys Babaidd, i lawr, ysgrifenodd yr attebiad a ganlyn iddo :—"Sier yw ei fod yn haerllugrwydd mewn un dyn i ddysgu fel philosophi Aristotle, unrhyw athrawiaeth nas gellir ei phrofi trwy ei awdurdod ef. Yr ydych chwi yn cydnabod hyny. Wel, ynte, llawer mwy—y peth mwyaf haerllug o bob peth ydyw honi yn yr Eglwys, ac yn mhlith Cristnogion unrhyw beth na ddysgodd Crist ei hunan."

Yn awr, egwyddor lydan a syml ydyw yr uchod. Y mae yn golygu, neu yn gosod allan mai Crist ydyw y dysgawdwr goreu o'i grefydd Ef ei hunan. Os ydych am wybod beth ydyw Cristnogaeth, trowch i'r Efengylau er cael gweled beth oedd yr hyn a bregethodd ein Hiachawdwr wrth fyned oddi amgylch yn mhlith y bobl.

Os y gosodir unrhyw athrawiaeth o'ch blaen, ac os gofynir i chwi ei chredu, gofynwch a ydyw yn athrawiaeth a bregethodd Crist ei hunan?—os nad ydyw, yna peidiwch a'i derbyn fel rhan o'i Efengyl Ef.

Y mae dynion plaen yn fynych yn cael eu dyrysu gan y pethau hynod a dieithr ag sydd yn cael eu dysgu yn yr Eglwysi, a chan y gwahanol athrawiaethau ag sydd yn ffynu yn y byd. Y maent yn ceisio cael allan y gwirionedd ynghylch y matter, ac y maent yn troi i'r Bibl er gweled pa beth ydyw ei dystiolaeth Ef. Ond ymddengys nad yw hyd y nod hyny yn penderfynu y ddadl, oblegid y mae gan bob eglwys ei llu o destunau dethol edig, neu ddewisedig, wedi eu pigo allan i *siwto* eu hathrawiaethau eu hunain; a gwaith oes ydyw astudio y Bibl yn drwyadl o un pen i'r llall. Wel dyma reol blaen, parth yr athrawiaeth Gristnogol, glynwch wrth eiriau Crist ei hunan yn yr Efengylau. Peidiwch dyrysu eich hunain gyda thestynau celyd a ellir eu pigo allan o fanau eraill; byddwch argyhoeddiadol i fod pob peth ag sydd yn anhebgorol angenrheidiol yn cael eu ddysgu yno gyda'r symlrwydd mwyaf; ac felly yn lle cymeryd unrhyw athrawiaeth ar ail law, ewch i lygad y ffynon er cael allan pa beth mae y Meistr ei hunan yn ddywedyd. "Beth!" medd rhai, "a oes dim a fynom ni â'r rhan arall o'r Bibl; a ydym ni i'w osod o'r naill ochr fel peth di-ddefnydd ac afreidiol, a hyny i'r ddiben o darllen y pedair Efengyl yn unig?"

Dim o'r fath beth. Y mae yr oll o hono yn rhyw ddull "yn fuddiol i athrawiaethu i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder," ond nid yr oll o hono yn yr un ffordd, nac yn yr un graddau. A ddywed unrhyw ddyn fod hanes rhyfeloedd yr Israeliaid o gymaint defnydd, neu o gymaint pwys a damegion ein Iachawdwr? Y mae yr Hen Destament yn dangos i ni y datguddiad graddol o Dduw trwy Moses, trwy y Salmydd a thrwy y Prophwydi, gan baratoi y byd i Grist gael cyhoeddi a dysgu y datguddiad cyflawnaf.

Yn y Testament Newydd y mae llyfr yr Actau a'r Epistolau yn dangos sut y darfu i ganlynwyr Crist dderbyn ei addysgiadau a'u hesponio i'r eglwys foreuol. Yr oeddynt yn llawn o yspryd Duw, etto pe gofynid iddynt pa un ai hwy neu ynte eu meistr oedd yn deall ac yn dysgu yr Efengyl oreu, a allwn ni fod mewn petrusdod ynghylch eu hattebiad? Gwir yw i ysprydoliaeth Duw oleuo eu deall yn rhyfeddol; ond etto ni wnaeth hwynt yn berffaith, a chan ein bod yn darllen am y modd y darfu i "Paul wrthwynebu Pedr yn ei wyneb," yr ydym am hyny yn rhwym o roddi a neilldno y lle uwchaf i Grist; i'w fywyd a'i eiriau ef fel ag y maent ar lawr yn yr Efengylau, ac yr ydym yn teimlo mai *yno* y mae gwir ystordŷ y gwirionedd yn ei symlrwydd mwyaf a'i ffurf buraf.

Yn awr, ymddengys yr egwyddor hon yn un blaen ac uniawn, ac etto i gyd y mae y cyfryw hyny ag sydd wedi ffurfio credöau ar y ffurf o athrawiaeth neu athrawiaethau ag sydd yn ffynu yn yr eglwysi; braidd wedi colli eu golwg arni. Nis gallwn lai na meddwl pe buasai ein Iachawdwr i ddyfod ar y ddaear etto, ac ymweled a'i eglwysi, y buasai yn synu yn anghyffredin wrth feddwl am lawer o bethau ag sydd yn cael eu dysgu yn ei enw fel yr Efengyl a bregethodd Ef! Oblegid beth ydyw yr athrawiaethau ag y mae y credöau yn eu amddiffyn yn selog, ac am omedd credu pa rai y dywedir fod yn rhaid i ni ddioddef yr arteithiau tragwyddol? Ni wnaeth Efe un cyfeiriad attynt yn ei bregeth feithaf! Siaradir am athrawiaeth y 'Drindod' fel ei

gelwir; athrawiaeth y ddwy nattur yng Nghrist; athrawiaeth y pechod gwreiddiol; yr athrawiaeth ag sydd yn dysgu nas gall Duw faddeu pechod heb yr Iawn Mawr, &c.' gelwir neu siaradir am y fath fel "athrawiaethau neillduol yr Efengyl." Ond edrychwch trwy'r Efengylau, chwiliwch yr holl hanesion ag sydd genym am bregethiad Crist; ac attolwg yn mha le ydym yn eu cael? Dim mewn un man! Os gofynwch i ddynion yn mha le y maent yn eu dysgu, difynant frawddegau i chwi yn y man, o bob rhan o'r Beibl oddigerth geiriau Crist ei hunan. Adnod fan hyn, ac adnod fan arall; testun o lyfr Job, a brawddeg o Isaiah, llawer adnod o Epistolau St. Paul—ond braidd yr un gair o eiddo Crist! Ond dichon y gofynir, onid ydyw brawddegau o lyfr Job, ac o Isaiah, ac o St. Paul o un gwerth? Ydynt bid sier; ond nid i sefydlu fel rhan o wirionedd Cristnogol unrhyw athrawiaeth na ddysgodd Crist mo honi. Ein hatteb i'r oll o'r fath ymresymiadau ydyw hyn, "Pa beth a ddywed yr Iachawdwr?" Os nad ydyw Efe yn dysgu felly, y mae camsynied neu gyfeiliornad yn rhywle; nid fe ddichon yn y geiriau difynedig ond yn y ffordd ag y mae dynion yn eu deall ac yn eu gosod at eu gilydd: pa beth bynag am hyny y mae ei addysgiadau Ef yn ddigonol, ac ni a lynwn wrthynt.

Yn awr, sylwn ar weinidogaeth ein Iachawdwr, ac ar yr hyn ag oedd Ef yn ecisio argraphu ar feddyliau dynion yn ei bregethiad o'r Efengyl. Dechreuwn yn y dechreu; cymerwn y bregeth ar y mynydd o dan ein ystyriaeth—ynghylch pa beth y mae hi, neu ynte, beth yw ei hamcan a'i chynwysiad?

Gwynfydau a bendithion yn cael eu cyhoeddi uwchben y rhai ag sydd "yn sychedu am gyfiawnder, y rhai pur o galon, y tangnefeddwyr, y rhai a erlidir o achos cyfiawnder:"—annogaethau i geisio am gyfiawnder uwch na chyfiawnder y gyfraith seremoniol;—addysgiadau ynghylch cariad brawdol,—ynghylch didwylldra a'r cariad hwnw nad ydyw yn gadael i'r llaw aswy i wybod beth mae y llaw ddehau yn wneuthur:—ynghylch ymddiried yn rhagluniaeth Duw, a bod yn gariadus a chymwynasgar tuag at eraill fel ag y mae Efe tuag atom ni—hyd y nod i'r drwg yn gystal a'r da; ac y mae yn dibenu gyda'r ddameg hyfryd hono ynghylch "y dyn ffol, yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y tywod, a'r dyn call yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y graig." Dim ond un ymadrodd yn unig ag y gellir ei ystyried yn cyffwrdd â matterion athrawiaethol; sef, lle y mae yn dywedyd, "Nid pob un ar sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllus fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd."

Y fath gerydd i'r rhai ag sydd yn gwneuthur y ffordd sydd yn arwain i'r nefoedd i ymddibynu ar yr athrawiaeth ag y mae dynion yn ei mabwysiadu gyda golwg ar berson neu nattur Crist!

Edrychwn etto, canlynwn Ef fel ag y mae yn cerdded yn ol ac yn mlaen yn mhlith y bobl, yn atteb eu amheuon, yn cerydduu eu pechodau, ac yn pwyntio eu ffydd tuag at Dduw. Cenadwri o drugaredd ydyw i eneidiau beichus ac anobeithiol, yn llefaru am drugaredd Duw, ac yn cyhoeddi maddeuant pechodau. Gwrandewn arno Ef yn cymhell i edifeirwch yn nameg y Mab Afradlon. Mewn eglwysi diweddar buasai yr athrawiaeth hon yn cael ei hystyried yn un afiach; ac yn lle y darlun ag y mae'r Iesu yn rhoddi o'i Dad, yn disgwyl am yr edifeiriol, ac yn ei dderbyn gydâ llawenydd ac yn maddeu y cyfan, yr ydym yn clywed am gyfiawnder anghymodlawn Duw, yr hyn sydd raid ei foddloni trwy gyflawn dâl am y trosedd cyn y gall ddangos y tipyn lleiaf o drugaredd! Beth mae'r Iesu yn ddywedyd mewn perthynas i blant bychain? "Eiddo y cyfryw yw teyrnas nefoedd"—Nid felly medd y credöau, oblegid y maent oll wedi eu llunio a'u geni "mewn pechod."

Drachefn, wele un o'r ysgrifenyddion yn dyfod atto, ac yn gofyn iddo, "Pa un yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?" Beth ydyw ei atteb? "Clyw o Israel; yr Arglwydd dy Dduw, un Arglwydd yw; A char yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl, ac a'th holl nerth. Hwn yw'r gorchymyn cyntaf." A'r ail sydd gyffelyb iddo: "Car dy gymydog fel ti dy hun." A chwedi i'r ysgrifenydd gydnabod hyny, a dywedyd fod y rhai hyn yn wir yn "fwy na'r holl

boeth-offrymau a'r aberthau," cofiwn atteb ein Iachawdwr, sef—"Nid wyt bell oddiwrth deyrnas Dduw." Nid yn mhell oddiwrth deyrnas Dduw! Beth, dim ynghylch credu? Dim ynghylch athrawiaeth? Pe buasai Crist yn dyfod i bregethu hyn yn ein dyddiau ni buasai yn cael ei fwrw allan o'i eglwys ei hun. Mewn gair byr, cymerwn at ein ystyriaeth fywyd ein Iachawdwr, ac ynghylch pa beth oedd ef yn pregethu? Ynghylch *cariad* Duw ein Tad tuag attom ni; ei drugaredd a'i barodrwydd i faddeu i'r troadur gwirioneddol mewn bywyd; cariad tuag atto mewn calon isel ac edifeiriol; cariad at ddyn fel ein brawd, gyda chyfiawnder, trugaredd a gwirionedd tuag atto Ef:—y gobaith gwynfydedig am anfarwoldeb, ac y dylem gerdded fel rhai ag sydd yn ymofyn am dano, megis mewn ffordd gul, ac arwain bywyd rhinweddol a da. Nid oes gyfundraeth *(system)* o athrawiaeth yma. Yn mhlith y cyfan oll yn wir, gallwn gasglu ychydig athrawiaethau oddiwrth gyfeiriadau gwasgaredig.

Yr ydym yn gweled hen athrawiaeth Moses yn cael ei chadarnhau gan Grist, sef Undod Duw, mai ein Tad Nefol ydyw yr unig wir Dduw. Yr ydym yn dysgu fod y plentyn yn cael ei eni nid yn bechadurus a llygredig neu aflan, ond yn bur. Dywedir wrthym yn amlwg i fod Duw bob amser yn barod i faddeu ar edifeirwch. Y *mae* hyn oll yn neillduol o blaen yn mhregethiad Crist.

Yn awr, yr ydym ni yr Undodiaid yn glynu wrth y ddysgeidiaeth hon. Bydded i eraill weithio allan neu ffurfio eu cyfundraethau athrawiaethol, a'u credu os gallant; yr ydym ni yn glynu wrth y grefydd a ddysgodd yr Iesu ei hunan; a ffydd ardderchog, syml a chariadus ydyw.

Y mae dynion yn dywedyd weithiau yn ein herbyn, nad ydym yn credu yng Nghrist. Ond mewn gwirionedd yr ydym ni *yn* credu ynddo Ef; ac mor wresog ydym yn ei barchu Ef fel amlygwr gwirionedd Duw, y fath ymddiried sydd genym ynddo fel ag yr ydym yn credu i fod yn ei bregethiad Ef yn bob peth ag y mae dyn yn sefyll mewn anghen o hono—y ffydd gadwedigol; yr ydym yn credu mor gadarn ynddo fel ag yr ydym yn cael ein bwrw allan o bob eglwys fel hereticiaid ac anffyddwyr; a hyny am na dderbyniwn y credoau ag y maent hwy wedi eu ffurfio, sylfaen i'r rhai nis gallwn ni gael allan yn ngeiriau ein Meistr—"Un yw ein Athraw ni, sef Crist."

Dywed ysgrifenwr enwog—"Y Bibl—y Bibl yn unig ydyw crefydd y Protestaniaid." Yr ydym ni yn myned yn mhellach, gan ddywedyd, Crist, a Christ yn unig (neu ddysgeidiaeth Crist) ydyw crefydd Cristnogion. *Cyf.* E. W. L.

"ATEB ARAFAIDD A DDETTRY LID, OND GAIR GARW A GYFFRY DDIGOFAINT."—Solomon.

Y mae y geiriau uchod wedi eu llefaru gan y gwr doeth; a chwedi eu gwirio ym mhob oes o'r byd, ac yr ydym yn dystion y dyddiau presenol o'u gwirionedd; ac yr ydym bob dydd i ryw raddau yn gweled hyny yn cymeryd lle. Geiriau swrth a geirwon sydd bob amser yn gyffrous, oddieithr fod yr hwn a fyddo yn eu derbyn wedi gwrando ar y gwr doeth, gan gofio rhoddi "ateb arafaidd" er mwyn dofi neu ddileu ei lid a'i sarugrwydd, a gosod yn ei le addfwynder a thynerwch mynwesol. Nid oes ond annedwyddwch yn bodoli bob amser, lle byddo dynion yn dewis dolurio teimladau naill y llall. Oherwydd mae llawer un wedi dioddef yn drwm cyn hyn, drwy adael i'w nwydau gwylltion ac uchelgeisiol gael eu ffordd, heb erioed ddwyn eu hunain o dan lywyddiaeth rheswm, fel ag i feddalhau eu tymerau mewn cariad ac ewyllys da.

"Ateb arafaidd a ddettry lid, ond gair garw a gyffry ddigofaint." Mae llid a digofaint wedi achosi niweidiau mawrion ym mysg dynolryw mewn llawer o ystyriaethau. Rhai wedi colli eu meddianau, eraill wedi colli eu

iechyd, eraill eu bywydau, ac amrywiol o bethau er dinystr i fywyd a meddianau, a cholledion dirifedi. Mae pawb yn barod i gyfaddef bod digofaint, llid a malais, trwy ymroi i'w nwydau afreolus, wedi dwyn dynion cyn hyn i'r pren dioddef, fel y mae gwaethaf y modd; llawer cymdeithas sydd wedi ymranu oherwydd digofaint, o ddiffyg addfwynder, amynedd ac arafwch yn eu plith; gŵŷr a gwragedd, plant a rhieni, brodyr a chwiorydd, wedi ymadael â'u gilydd, o ddiffyg rhoddi clust-ymwrandawiad i eiriau y gwr doeth; trwy siarad yn arafaidd, mae yn sicr i ddofi llid, a gyru pob casineb allan o'r fynwes, a phlanu yn eu lle garedigrwydd a chyfeillgarwch a chydymdeimlad gwirioneddol; y pethau os cânt eu llefydd a'u heffaith briodol, a fyddant yn perarogli yn hyfryd pa le bynag y byddont; "Gwr digllon a gyffry gynen, ond dyn hwyrfrydig i lid a dŷr ymryson."

Dylem bob amser wneud ein gorau i beidio rhoddi tramgwydd i neb os bydd yn bosibl; nac ychwaith bod yn barod i gymeryd tramgwydd, fel trwy hyny y byddwn yn gochelyd llawer o flinder i ni ein hunain. Pe byddai ymrysonwyr byd yn troi clust o wrandawiad i eiriau y gwr doeth, ac i weled eu pwysfawrogrwydd, diamau y delent i ganfod gwerth heddwch rhwng gwledydd a'u gilydd, ac i fwynhau ffrwythau cariad a thangnefedd, yr hyn yn unig a ddwg gysur a diddanwch i ddynolryw yn wastadol. Ond y mae yn ddyledswydd arnom bob amser i wneud ein gorau i feithrin teimladau da tuag at ein cyd-ddynion o dan bob amgylchiad. Pan fyddo y byd hwn yn ein gwasgu, a chroesau a thrallodion megys yn ymarllwys ar draws y naill neu y llall o honom bydd addfwynder yn werthfawr iawn, er cin diddanu a'n cynal dan y cyfryw amgylchiadau, a chofio fod y cyfan yn cael ei reoleiddio gan Un ag sydd yn "gwybod y diwedd o'r dechreuad, ac er cynt yr hyn ni wnaed eto, ac yn dywedyd fy nghyngor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf."

Y mae y Salmydd yn dywedyd wrthym—"Calon gyndyn a gilia oddiwrthyf, nid adnabyddaf ddyn drygionus. Torraf ymaith yr hwn a enllibo ei gymydog yn ddirgel; yr uchel o olwg, a'r balch ei galon, ni allaf ei ddioddef." Gan fod enllib a llid a digofaint, ac ymryson ac ysgelerder, yn bethau mor annymunol ac mor ffiaidd yngolwg y doeth a'r deallus, ac hefyd nad oes neb braidd yn foddlon i arddel eu bod hwy yn hoffi y pethau hyny, neu yn cael un dedwyddwch nac y lles lleiaf oddiwrthynt; ond rhyw rai eraill ydynt bob amser yn eu cyflawni; gellid disgwyl y byddai i ni roddi mwy o sylw a gwrandawiad i gynghorion ac hyfforddiadau dynion doeth a phrofiadol, ac nid ymchwyddo, gan feddwl ein bod yn rhywbeth pan mewn gwirionedd nad ydym ddim. Bydded i ni gofio yn wastadol mai plant i'r un Tad cyffredinol ydyw holl ddynolryw; a dylem fod yn ofalus na fyddom yn rhoddi lle i egwyddorion drwg i aros yn y fynwes un eiliad o amser; gwenwyn dinystriol ydynt; oblegid y mae ymborth iachusol i'r meddwl mor angenrheidiol ag ydyw ymborth iachus i'r corph, a dylem gyfeirio ein galluoedd meddyliol bob amser at bethau a fyddant o wir les i ni ein hunain, ac at lesoli cin cymydogion yn ein ymyl. Rhy fynych mae dynion yn dilyn y gyfraith Foesenaidd—"Llygad am lygad, a dant am ddant," a thrwy hyny yn rhoddi lle i ymryson a dialedd, yn lle heddwch, cariad ac ewyllys da. Dylai rhieni plant, o neb dynion, i roddi "ateb arafaidd" yn wastadol, fel trwy hyny y byddont yn addysgu eu plant i fod yr un modd, a phawb eraill yr un cyffelyb, oblegyd y mae tueddiad mewn plant i ymdebygoli i ddynion mewn oedran, yr hyn sydd yn gwneuthur yn bwysig pa esampl a osodir o'u blaen.

Nis gallaf lai na chrybwyll y geiriau eto, "Ateb arafaidd a ddettry lid, ond gair garw a gyffry ddigofaint." Ymarferwn â siarad yn fwyn ac yn arafaidd, ac nid son am hyny, ond trwy wneud felly. Digon tebyg bydd yr effeithiau i'w gweled yn ein hymddygiadau bob amser; nid yn ymddangos felly yn arwynebol yn unig a thros ychydig amser, ac eto yn anghofio pan y del profedigaeth i'n cyfarfod; ond yn wirioneddol yn ganfodadwy yn ein hymarweddiad ar bob achlysur; oherwydd dyna yr amser y gallwn wneud yn hyspys, a rhoddi sicrwydd ein bod yn feddianol ar y dymer arafaidd, yr hon sydd yn diddymu llid, ac yn planu yn ei lle—addfwynder a serchawgrwydd gwirioneddol.

Y mae einioes dyn yn ansicr, ac yn cael ei chyffelybu i beth mor fyr ei barhad â glaswelltyn, mwg, niwl, neu darth: ac yn briodol y dywed y Salmydd (S. 102, ad. 11) "Fy nyddiau sydd fel cysgod yn cilio; a minau fel glaswelltyn a wywais;" ac eto (Salm 109, ad. 23,) "Aethum fel cysgod pan gilio; fel locust y'm hysgydwir." Ymhellach, Salm 144, ad. 1. "Dyn sydd debyg i wagedd; ei ddyddiau sydd fel cysgod yn myned heibio." Nid yw hyna ond ychydig o lawer o eiriau i'r un pwrpas, i brofi ansicrwydd einioes, ac fy amcan wrth eu crybwyll oedd dangos pa mor ansicr ydyw y bywyd ag yr ydym yn ei fwynhau; a thrwy hyny ei fod o'r pwys mwyaf i'r naill ac i'r llall o honom i wybod pa ffordd yr ydym yn ei dreulio. Os ydym trwy drefn Rhagluniaeth wedi cael ein gosod mewn sefyllfaoedd cysurus, na fydded i'r esmwythder hyny fod yn foddion i grëu difaterwch ynom mewn perthynas i'n dyledswyddau yn y byd a'r bywyd hwn; a goreu pa gyntaf y dechreuom ymholi, a barnu drosom ein hunain, beth a wnawn fel y byddom cadwedig. Ond trown at y profiadol a'r dysgedig, ac yna y derbyniwn oddiwrthynt yr hyn a wna wir les i ni; ac na fydded i ni roddi ein serch i ormodedd ar bethau nad ydynt i fod yn ein meddiant ond dros ychydig; ond roddwn ein bryd yn fwyaf neillduol ar y pethau o dragywyddol barhad, gan fwrw ymaith bob chwerwedd o'r fynwes, a gosod yn ei le, gariad a thynerwch, ac ymdrechu hyd eithaf ein gallu oedd, ym mhob amgylchiad, i wneud ein hunain yn ddefnyddiol yn ein hoes a'n cenedlaeth; a bod yn offerynol i yrru ymaith bob drwg allan o'r byd; ac i fyw yn sobr, ac yn onest tra fyddom yma ar y llawr, fel y byddom trwy hyny yn gallu ymadael â'r byd mewn heddwch â'n cyd-ddynion, a'n llygaid yn gweled iachawdwriaeth yr Arglwydd.

Hyfryd yw meddwl y cawn ni gyd-gyfarfod eto â'n cyfeillion, a'n perthynasau a'n plant anwylaf mewn gwlad heb achos ofni ymadael mwy; ond cofiwn mai dynion da yw y rhai ag sydd yn addawedig o gael meddianu y cyfryw fraint; dynion sydd wedi rhoi clust o ymwrandawiad i alwadau taer ein Tad o'r nef, ac wedi rhodio yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r esamplau ac y mae wedi eu gosod o'n blaen er mwyn rhyngu ei fodd. Dywed y prophwyd Job, "Canys pan ddel ychydig flynyddoedd, yna mi a rodiaf lwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelaf." Y mae rhywbeth yn gyffrous ac yn bwysig rhyfeddol yn y geiriau uchod o eiddo Job; feallai mai ymhen ychydig ddyddiau, neu oriau y bydd i rai o honom ninau i deithio y llwybr hwnw, o'r hwn ni ddychwelodd un teithiwr i roddi hanes ei daith; y llwybr olaf ydyw, llwybr a ddylai pawb dalu sylw manwl iddo, pa beth sydd yn angenrheidiol gogyfer a'r siwrnai, fel na byddo i neb ddiffygio ar ei daith. Mawr y parotoadau sydd genym pan y byddom yn bwriadu ymfudo o un wlad i'r llall, chwilio allan ansawdd y wlad, dull ac agwedd ei thrigolion, pa fath o

frenin sydd yn llywodraethu yno, a phob peth a fydd yn debygol o ateb oreu yno; ac y mae hyn yn gallineb ym mhob dyn, er dedwyddoli ei hun; os yw dyn yn teimlo, ac yn gwybod bod yn rhaid cael pethau felly cyn anturio unrhyw daith ddaearol, pa faint mwy angenrheidiol chwilio ac ymofyn am y cymwysderau a berthyn i'r wlad yr hon dymuna pawb fyned iddi, gwlad lle nid oes na galar nac wylofain o fewn ei magwyrydd, na neb o'i phreswylwyr a ddywed "claf ydywf." Gwyddom trwy brofiad nad yw sarugrwydd, llid, malais, digofaint, cynen, twyll, ac anwiredd ond yn dwyn annedwyddwch yn y byd hwn, a blinder yspryd ar bob dyn a'u meddiano, ac mor sicr a hyny ni feddant un awdurdod ar y wlad a'r gyfeillach lle ni raid ymadael mwy.

Digofaint, llid, a geiriau chwerwon,
Sydd yn dwyn eu mawr drallodion;
Tra mae cariad ac arafwch,
Yn dwyn ini fawr ddedwyddwch.

Pantysgawen. JENKIN LEWELYN.

Gohebiaethau.

CYFARFOD BLYNYDDOL UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

Cynnaliwyd y cyfarfod uchod dydd Iau, y 23ain o Fehefin, yn Cwmbach, ger Aberdar.

Yn y cyfarfod arferol y prydnawn o'r blaen, pregethodd y Parch. T. Lloyd, Nottais, a'r Parch. D. Beynon, Saint Clears.

Boreu dranoeth am lleg o'r gloch, dechreuwyd yr addoliad trwy ddarllen a gweddi gan y Parch. J. E. Jones, Penybont; a phregethodd y Parch. Mr. George, Aberdar, yn Saesneg, oddiwrth 1 Cor. xv. 24, 25; a'r Bregeth flynyddol, mewn cyssylltiad â'r Gymdeithas llyfrau, a bregethwyd gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, yn unol âg appwyntiad y cwrdd blynyddol diweddaf yn Nghapel-y-groes. Testun y bregeth a gymmerwyd oddiwrth eiriau Paul yn Athen, Actau xvii. 23—25.

Wedi'r pregethu, a chanu mawl a gweddi, aethpwyd yn union ymlaen â'r gynnadledd agored cyssylltiedig â'r Cwrdd Cwarterol. Dewiswyd y Parch. E. W. Lloyd, gweinidog y lle, yn gadeirydd. Testun y Gynnadledd oedd ystyr geiriau Paul, 2 Cor. v. 21, "Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth Efe yn bechod drosom ni, fel ein gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef." Llefarwyd ar y testun gan y Parchn. Wm. Thomas, Llwynrhydowen, O. Evans, Cefn, a J. E. Jones, Penybont. Tebygol mai yr un testun fydd dan ystyriaeth yn y Cyfarfod Cwarterol nesaf. Yr hyn lleiaf nid y'm ni yn cofio darfod i un testun arall gael ei gynnyg a'i gymmeradwyo. Cyttunwyd ar fod Cyfarfod Cwarterol yr Hydref nesaf i gael ei gynnal yn y Gellionnen, a'r Parch. R. J. Jones, Hen-dy-cwrdd, Aberdar, i bregethu.

Gadawer i ni fan yma gofnodi ymhellach fod y Cyfarfod Blynyddol nesaf perthynol i'r Gymdeithas Llyfrau, wedi ei appwyntio i gael ei gynnal yn Pant-y-defaid, a'r Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, i bregethu'r bregeth.

Cymdeithas Llyfrau Undodaidd y Deheubarth.

Ni ddiweddwyd y cwrdd gyda dibenu'r gynnadledd; ond awd yn y blaen yn uniongyrchol gyda matterion y Gymdeithas uchod, a gweinidog y lle etto yn y gadair. Dechreuwyd gyda darllen yr adroddiad *(report)* a ganlyn o gyfrifon a gweithrediadau y gymdeithas am y flwyddyn 1863—4.

Adroddiad yr Ysgrifenydd, y Parch. T. Thomas.

Oddiar y cyfarfod blynyddol diweddaf yn Capelygroes hyd y cyfarfod blynyddol presenol yn Cwmbach, rhoddwyd allan o ystorgell y Gymdeithas i danysgrifwyr ac eraill oddeutu y rhif ganlynol o lyfrau: Salmau Iolo, 33; Ymofyniad Tawel, 13;

Mr. James ar "Haeddiant Crist." Rhan I., 6; "Appel" Dr. Priestley, 694. Nid yw pawb etto wedi cael cyfleusdra i dalu.

	£	s.	d.
Yn llaw'r Trysorydd yn amser y cyfarfod blynyddol yn Capelygroes, Mehefin, 1863.	8	9	0
Oddiar y cyfarfod blynyddol, 1863, hyd y cyfarfod blynyddol hwn, derbyniwyd o arian oddiwrth danysgrifwyr ac eraill ... £15 18 3			
Talwyd am argraffu 1000 o'r "Appel" 8 0 0			
Talwyd am gludiad yr un o Aberystwyth 0 2 6			
Arian yn llaw'r Ysgrifenydd 0 5 9			
Talwyd i law'r Trysorydd 18fed o'r mis hwn 7 10 0			
	7	10	0
	£15	18	3
Arian yn llaw'r Trysorydd, Mehefin 23ain, 1864.	£15	19	0

Wedi darllen yr adroddiad uchod aethpwyd ymlaen i appwyntio Trysorydd ac Ysgrifenydd a Chyfeisteddwyr am y flwyddyn ddyfodol. Cyttunwyd iddynt fod yr un a'r flwyddyn ddiweddaf gyda'r gwahaniaeth fod Mr. R. J. Jones, Aberdar, i fod yn lle ei dad, a Mr. J. Evans, Gellionnen, yn lle Dr. Lloyd.

Penderfynwyd hefyd gan y cyfeisteddwyr i gyhoeddi cyfieithiad o Egwyddorwr *(Catechist)* Mr. Lindsey i'r Gymraeg yn ddioedi.

Cafwyd cyfarfod da etto yn y diwedydd pan y pregethodd y Parch. J. Evans, Gellionnen, oddiwrth Luc xxii. 43, a'r Parch. Wm. Thomas, Llwynrhydowen, oddiwrth Ioan iv. 13, 14. Cafwyd cynulleidfaoedd lluosog ac astud trwy'r holl oedfaon.

Cymdeithas y Weinidogaeth Undodaidd yn Nghymru; (Welsh Unitarian Ministers' Education Fund.)

Ar ol ciniaw, rhwng 3 a 4 o'r gloch, cyfarfu y tanysgrifwyr ac ewyllyswyr da eraill i'r gymdeithas uchod yn y capel. Galwyd ar y Parch. J. E. Jones i gymeryd y gadair. Wedi gosod allan yn fyr amcan y gymdeithas, set, i roddi cynnorthwy i ddynion ieuainc cymmwys a gobeithiol a fyddont yn ymbarotoi i'r weinidogaeth Undodaidd yn Nghymru; cynnygiwyd a chyttunwyd yn unfrydol fod y gymdeithas i gael ei ffurfio dan yr enw, a chyda'r amcan uchod, ac i'w gosod mewn gweithrediad yn ddioedi. Appwyntiwyd Trysorwr, Ysgrifenydd, a Chyfeisteddwyr am y flwyddyn ddyfodol. Rhoddir enwau y Tanysgrifwyr a'r Cyfeisteddwyr ynghyd a manylion eraill yn y Rhifyn nesaf. Ond er rhwyddhau gweithrediadau y gymdeithas, ymddengys yn ofynol i hyspysu, mai Mr. J. Jones, *Stamp-office*, Aberdar, yw y Trysorydd, a'r Parch. R. J. Jones, Mount Pleasant Garden, Mill-street, Aberdar, yw yr ysgrifenydd a appwyntiwyd. Bydd gweinidogion a chyfeillion eraill i wneud eu goreu o blaid yr achos yn eu hamrywiol gymydogaethau. Anfoner pob gohebiaeth at yr Ysgrifenydd neu'r Trysorwr. Bydd yn dda ganddynt dderbyn enwau newydd a thanysgrifiadau tuag at achos y Gymdeithas. Derbyniwyd dros £21 o danysgrifiadau yn y capel wrth ffurfio'r gymdeithas.

Un peth arall—Rhaid i bob ymgeisydd am gynnorthwy anfon ei ddeisyfiad yn uniongyrchol at yr Ysgrifenydd, Mr. R. J. Jones, i'r diben iddo ef ei gosod gerbron y Cyfeisteddwyr. A bydd yn ofynol i bob Ymgeisydd gael tystiolaeth dau weinidog adnabyddus, parth ei garacter moesol a'i gymmwysderau; ac i wneud declarasiwn yn bersonol o'i ddymuniad a'i benderfyniad i lafurio gyda'r weinidogaeth Undodaidd yn Nghymru. Ni chaniatteir i ni ddywedyd rhagor yn awr.

AT "GARWR CYSSONDEB."

Mr. Gol.—Y mae "Carwr Cyssondeb" (tudal. 143 o'r Rhifyn diweddaf) yn fy nghamddeall yn hollol, a phe buasai arno gymmaint o awydd i gael allan fy meddwl, ac sydd arno i ymddangos yn gyhoeddus, gallasai ei gael heb ddim *cost*, ond yn unig dyfod attaf ar ddiwedd y cyfarfod y cyfeiria ef atto.

Cefn. Owen Evans.

AR OFYNIADAU.

Mr. Gol.,—Mai amrai ofyniadau yn nghylch pyngciau ysgrythyrol, &c., wedi cael ymddangos o bryd bwy gilydd yn eich Cyhoeddiad; a rhai o honynt heb fod mor ffortunus ag i ennill attebiad nac unrhyw sylw oddiwrthych chwi nac oddiwrth eich Gohebwyr. Yr wyf fi yn rhwydd gydnabod y gall pob ffwl ofyn cwestiwn; ac hefyd ei bod yn haws gofyn cwestiwn na'i atteb. Er hynny y mae rhai gofyniadau dyddorol wedi ymddangos ag y carwn yn fawr gael attebiad boddhaol iddynt. Yr eiddoch, Quis?

Pawsiau Gartrefol a Thramor.

Y Llys a'r Weinyddiaeth.—Y mae yn parhau i fod yn gyfyng ar y Llŷs o'r ddau tu, o herwydd y cyssylltiad teuluol â Phrwssia ac â Denmarc; a diau ei bod wedi bod yn gyfyng ar y Weinyddiaeth oherwydd yr un achos, yn gystal ac oherwydd ystyriaethau eraill a mwy pwysig yn ngolwg y wladwriaeth. A serch bod y prif weinyddwyr presennol wedi datgan i fod ein Brenhines bob amser wedi dangos parodrwydd i gydsynio â'r eynghor a gyttunent i roddi iddi; etto, ar y cyfwng prysur presenol teimlir colled neillduol ar ol y Tywysog Albert, nid yn y llŷs yn unig, ond trwy'r wlad yn gyffredinol. Nid matter bychan yw i Brydain Fawr, ar ei phen ei hun, i ddechreu rhyfel ag a fydd yn debyg o droi i maes yn rhyfel cyffredinol. Gwnaeth gweinyddiaeth Argl. Palmerston yn dda i gyfrif y gost o'r fath ryfel, ac i geisio yn mhob modd teg a chyfiawn i ochelyd y fath beth, serch bod teimladau y wlad yn gryf iawn yn erbyn ymddygiad a mesurau trahaus Prwssia a phobl Germany tuag at Denmarc fechan. Diau mai drwg a cholled mawr fyddai aberthu can mil o fywydau, ac feallai ychwanegu can miliwn at y ddyled wladol—ac am beth, ac i ba ddiben? ond i attal Prwssia a Germany i ychwanegu rhyw ychydig (er yn annheg ac anghyfiawn) at eu tiriogaeth.

Y Senedd a'r Wladwriaeth.—Y mae Arglwydd Palmerston yn Nhŷ y Cyffredin (fel Iarll Russell yn Nhŷ yr Arglwyddi) wedi addef bod eu hymdrechiadau yn y *conference* i wneuthur heddwch rhwng Denmarc a Germany wedi methu yn lan. Trôdd Prwssia, meddent, yn drahaus dros ben, a Denmarc yn ystyfnig. Ond er y teimlent fod Denmarc yn cael cam, etto nas gallent gynghori ei Mawrhydi i gyhoeddi rhyfel yn erbyn Germany, o'r achos, ar hyn o bryd. Ond cyn byddo'r rhifyn hwn yn nwylaw ein darllenwyr bydd y matter wedi cael ei ddadleu yn y Senedd, ac o bosibl wedi ei ddwyn i ryw fath o benderfyniad. Nid yw cyfnewidiad yn y Weinyddiaeth ddim o gymmaint pwys ag yw amddiffyn cyfiawnder rhwng teyrnasoedd â'u gilydd a chadw heddwch cyffredinol.

America.—Yn ol y newyddion diweddaf yr oedd Lee a'i fyddin mewn sefyllfa gref ar y tu gogleddol i'r *Chickahominy*. Ar y 3ydd o'r mis diweddaf gwnaeth Grant ymosodiad arno gyda'r amcan o'i yru allan, ond methodd yn lan a chollodd nifer anferthol o'i wŷr. Ymddengys fod Grant yn awr yn argyhoeddedig o'r amhosiblrwydd o gymmeryd Richmoud trwy ymosod arni o'r ochr ogleddol, a'i fod o leiaf wedi symmud cyfran o'i fyddin i'r ochr ddeheuol i'r afon James, gyda'r amcan o ymosod arni o'r dehau. Ond mynegir mai ei brif amcan, trwy symmud felly ran o'i fyddin yr hon oedd newydd ei hadgyfnerthu gan 60 mil o wŷr, oedd ceisio gwneud ymgais i amgylchynu y ddinas, a thori y cymmundeb rhyngddi a'r Taleithiau Deheuol, a thrwy hyny i newynu byddin Lee, neu ei orfodi ef i ddyfod allan i ymosod ar Grant mewn sefyllfa o ddewisiad yr olaf. Bernid hefyd y byddai sefyllfa Butler, yn Bermuda Hundred, yn un dra ffafriol i weithredu o honi yn erbyn Richmond.

Bu Farw—

Mehefin 2, yr hardd ei golwg a'r aeddfwyn nodedig ei thymer, Miss Anna Davies, Tymawr, Talsarn, Ceredigion. Hunodd yn y darfodedigaeth yn hynod o dawel ac esmwyth. Yr oedd y ferch ieuangc hon, tra y bu, yn esampl i holl ferched y gymmydogaeth; efelychent hi. Pregethwyd ar ddydd ei chladdedigaeth oddiwrth Esay 40, 8, gerbron llu mawr o bresennolion, gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin, cynnorthwyedig gan yr ysgrifenydd.

Ar y 12, Catharine Evans, Castelldraenog, yn 35 oed. Yr oedd hi yn aelod (parchus gan bawb a'i hadwaenent) o eglwys Rhydygwin. Pregethwyd yn ei hangladd gan Mr. John Davies, Graigwen, Ystrad, oddiar y 6fed adnod flaenaf o'r 6fed Salm.

Mehefin 16, Mrs. Hannah Davies, Glanathren, gweddw y diweddar Mr. Timothy Davies, Velindre-uchaf, ger Llanbedr, yn 80 oed. Aeth at ei thadau mewn heddwch, a chladdwyd hi mewn oedran teg. Bu yr hen wraig barchus, rhinweddol ac heddychlawn hyn yn aelod yn eglwys Caeronnen am neu dros 50 mlynedd. Pregethwyd yn ei hangladd gan y Parch. D. Evans, ei gweinidog, oddiwrth Dat. 14, 13. Y rhanau defosiynol a gyflawnwyd gan yr ysgrifenydd.

Barddoniaeth.

YMWELIAD A HEN GAPEL PANTTEG, GER CASTELLNEWYDD-EMLYN, AR SABBATH YN EBRILL, 1864.

[Un o gapeli'r Bedyddwyr Cyffredinol yw Pantteg, wedi ei godi yn 1764. O bryd i'w gilydd yn ystod y can mlynedd, mae tair o gynulleidfaoedd o Fedyddwyr Neilldnol wedi myned allan, sef Drefach, Castellnewydd a Rehoboth, ac un o Annibynwyr, sef Capeliwan. Mae y merched oll yn gryfach na'r fam, a rhai o honynt yn lliosog o ffyniannus iawn. Eto y mae yn y Pantteg hyd yn hyn "ychydig enwau" yn aros.]

Un o dlysaf bantau natur,
Teg o hin a theg o rân,
Lle mae'r risial nant yn murmur
Hyd garegog wely glân;
A gwyrdd-goleu'r pin-wydd llathraidd
Dros y fron uwchlaw yn do,
A'r hen gapel llwyd yn gorwedd
Mewn unigedd yn y fro.

Yn y gwanwyn ar foreuddydd
Bydd y gân yn llon'd pob llwyn,
A lleddf awel brig y pin-wydd
Fel anadliad natur fwyn;
Y coed eithin melyn-flodau
'N trwsio'r perthi yma a thraw,
Ac fel sêr ar fin y llwybrau
Briall lliwus ar bob llaw.

Drwy y coed a thros y llethri
Araf ddisgyn ambell wr,
Ond yn awr ys amrai flwyddi
"*Nid* i'r Pant y rhed y dwr."
Oedir yn y fonwent enyd
Ger y fan lle mae rhyw un
Cu ac anwyl yn ei fywyd
Yn mwynhau yr olaf hun.

Gyda godre'r llechi llwydion,
Mewn dan gronglwyd yr hen dŷ,
Gyr y iorwg gangau hirion,
Crogant ac ymsiglant fry,
Fel yn holi'n brudd o galon
Am y tadau, "B'le maent hwy?"
Tra'r ateba'r seddau gweigion,
"Aethant, ni ddychwelant mwy."

Dadfeiliedig yw y meinciau
Ynt yn deneu hyd y llawr,
Rhai'n dwyn enwau hoffus dadau
Nad oes ond eu lle yn awr.
Dros y gynt-epiliog Sion
Taen anghyfanedd-dra sŷn,
Os na ddaw rhyw angel tirion
Eto i gynhyrfu'r llyn.

Frodyr serchus a chwiorydd
Cofiwch hen addewid Crist,
Ei braidd bychan yn y stormydd
Ef nis gad yn wan a thrist.
Lle cyn hyn bu llu o seintiau
'N diwyd drwsio lampau 'u ffydd,
Glynwch yn eich dysgwyliadau
"Am wel'd toriad llon y dydd." G.

PENNILLION I'R HAF.

Tôn,—"*Y Gelynen.*"

Fe ddaeth yr haf, gan wenu'n fwyn:
Y deiliog lwyn sy'n lloni,
A'r adar gwâr ar gangau'r gwydd
Yn ddedwydd sy'n telori:
Gan wres yr haul a'r desawg hîn,
Y dyffryn sy'n adfywio,
A'r ddae'r o'r bron sy'n nefawl braidd,
Yn werddaidd gwedi 'i hurddo.

Yr hedydd bach ar doriad dydd,
Ei garol rhydd o'r wybren:
A gyda'r hwyr ar ganghen werdd
Cawn felus gerdd mwyalchen;
Tra'r llu morwynig ar y ddôl
Mor swynol eu halawon,
Wrth odro'r gwartheg blithion brâf
Ar lânau'r Tâf a Chynon!

Prydferthwch natur yn mhob man
O'r bryniau bân i'r dolydd;
Y neint grisialaidd, ddyfroedd pur,
Brysurant i'r afonydd;
Yr ŷd dan fantell euraidd gawn,
A diwyd iawn y gwenyn,
Perllanau, ffrwythau, blodau fyrdd
Dryfrythient wyrddni'r dyffryn.
Mountain Ash. LLEWELYN ALAW.

ENGLYNION AR HENAINT AC AFIECHYD, &c.

Gwae hen-ddyn gwydyn go-oediawg, gwargul,
Gwirgas pob goludawg;
Gwae a orfo rhoddi rhawg,
A'i ben gwyn heb un geiniawg.

Gwae'r gwan dan oedran, Duw edrych, ni chwyn,
Ni cherdd led yr un rhych;
Gwae ni wel yn gynhelwych,
Gwae ni chlyw organ a chlych.

Nid haint ond henaint, nid hyd, ond cyfan,
Nid cyfoeth ond iechyd;
Nid da bydol yw golyd,
Nid rhyfyg ond benthyg byd.—*Trys.*

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.